



Disgrifyddion Graddau TGAU CBAC I'w defnyddio yn Haf 2021

Ar gyfer Haf 2021 | Mawrth 2021



@CBAC_WJEC



WWW.CBAC.CO.UK



@CBACWJEC

Cynnwys

	Tudalen
Adran 1	1
Rhagair	1
Darparu'r disgrifyddion graddau	1
Adran 2	3
Disgrifyddion graddau	
Celf a Dylunio (pob teitl)	3
Busnes	5
Cyfrifiadureg	7
Dylunio a Thechnoleg (pob maes arnodedig)	9
Drama	11
Saesneg Iaith	13
Llenyddiaeth Saesneg	15
Bwyd a Maeth	16
Daearyddiaeth	18
Hanes	19
Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (gradd unigol a dwyradd)	21
TGCh (gradd unigol a chwrs byr)	23
Mathemateg a Mathemateg- Rhifedd	25
ITM – Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg	27
Astudio'r Cyfryngau	30
Cerddoriaeth	32
Addysg Gorfforol (gradd unigol a chwrs byr)	34
Astudiaethau Crefyddol (gradd unigol a chwrs byr)	36
Gwyddoniaeth (pob cymhwyster gwyddoniaeth)	38
Cymraeg Ail Iaith	40
Cymraeg Iaith	43
Llenyddiaeth Gymraeg	45

ADRAN 1

Rhagair

Ar 10 Tachwedd 2020, [cyhoeddodd](#) y Gweinidog Addysg na fydd arholiadau diwedd blwyddyn yn digwydd yng Nghymru yn haf 2021. Ar ben hynny, mewn [datganiad](#) ar 20 Ionawr 2021, cadarnhaodd y Gweinidog Addysg y canlynol: 'defnyddir model Graddau wedi'u pennu gan y Ganolfan i ddyfarnu graddau dysgwyr sy'n ymgymryd â chymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch wedi'u cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru.'

Ar 22 Chwefror 2021, cyhoeddodd CBAC gyfres o ddeunyddiau i gefnogi addysgu a dysgu yn y gwanwyn a'r haf 2021. Yn rhan o'r pecyn hwnnw, cyhoeddwyd dogfennau fframweithiau asesu ar gyfer pob un o'r cymwysterau CBAC TGAU, UG a Safon Uwch wedi'u cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru, gan nodi hefyd y byddem yn darparu disgrifyddion graddau wedyn. Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys disgrifyddion graddau ar gyfer cymwysterau TGAU CBAC. Mae llyfryn ar wahân i gymwysterau UG a Safon Uwch CBAC.

Bwriad disgrifyddion graddau yw cefnogi canolfannau wrth iddynt bennu graddau i bob dysgwr.

Darparu'r disgrifyddion graddau

Darparwyd disgrifyddion graddau ar gyfer cymwysterau CBAC TGAU, UG a Safon Uwch a gymeradwywyd¹ gan Cymwysterau Cymru mewn perthynas â'r graddau canlynol:

Cymhwyster	Gradd A	Gradd C	Gradd E	Gradd G
TGAU	✓	✓	✓	✓
UG	✓	✓	✓	Amh.
Safon Uwch	✓	✓	✓	Amh.

Dewiswyd y graddau hyn i sicrhau bod canolfannau'n cael syniad o lefel debygol y perfformiad ar bob yn ail gradd ar draws ystod graddau gyflawn pob cymhwyster. Wrth benderfynu ar raddau i'w dyfarnu i ddysgwyr felly, ni fydd gofyn i athrawon ffurfio barn rhwng graddau cyfagos lle nad oes disgrifydd yn berthnasol i'r naill na'r llall o'r graddau hynny. Ar ben hynny, drwy weithredu fel hyn gallwn gynnig gosodiadau sy'n dangos gwahaniaethu clir rhwng disgrifyddion. Byddai ceisio gwneud hyn ar gyfer pob gradd yn yr ystod yn arwain at ddisgrifyddion tebyg iawn gyda fawr ddim gwahaniaethu rhwng graddau cyfagos. Mae hyn yn cyfateb i'r manylion a amlinellwyd gan Cymwysterau Cymru yn ei ddogfen <https://qualificationswales.org/media/7234/canllawiau-asesu-haf-2021-f3.pdf>.

I ddeall pwrpas disgrifyddion graddau, mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r cyd-destun y bwriedir eu defnyddio ynddo.

Model Gradd Wedi'i Bennu gan y Ganolfan fydd dull dyfarnu cymwysterau dysgwyr TGAU, UG a Safon Uwch yng Nghymru yn haf 2021.

Dylai canolfannau, wrth bennu'r radd, ystyried pwysoli'r unedau a'r amcanion asesu yn y fanyleb (gan gynnwys effaith unrhyw addasiadau) a hefyd tystiolaeth pob dysgwr mewn perthynas â'r disgrifyddion graddau fydd i'w cael. Dylent hefyd ystyried amodau sefyll yr asesiad, e.e. dan oruchwyliaeth/heb oruchwyliaeth, hyd, ac ati.

¹ Cyhoeddwyd disgrifyddion graddau ar gyfer cymwysterau wedi'u hachredu gan Ofqual, gan gynnwys cymwysterau CBAC Eduqas TGAU (9-1), UG a Safon Uwch, gan y CGC [yma](#).

Rhaid dehongli'r disgrifyddion mewn perthynas â'r cynnwys a nodir gan y fanyleb (yn ôl addasiad 2021, lle y bo'n briodol). Bydd y radd y mae'n fwyaf priodol ei dyfarnu yn dibynnu, yn ymarferol, ar faint y mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar y dystiolaeth gael eu cydbwyso â pherfformiad gwell mewn agweddau eraill ac nid yw'n ofynnol i ddysgwyr ymdrin â holl agweddau disgrifydd y radd i ddyfarnu'r radd iddynt.

ADRAN 2

TGAU Celf a Dylunio (pob teitl)

Darperir y disgrifiadau graddau canlynol er mwyn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyrhaeddiad y mae ymgeiswyr y dyfarnwyd graddau penodol iddynt yn debygol o fod wedi'u dangos. Rhaid dehongli'r disgrifiadau mewn perthynas â'r cynnwys penodol o'r fanyleb (yn ôl addasiad 2021, lle y bo'n briodol). Bydd y radd y mae'n fwyaf priodol ei dyfarnu yn dibynnu, yn ymarferol, ar faint y mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar y dystiolaeth gael eu cydbwyso â pherfformiad gwell mewn agweddau eraill.

Gradd A

Mae ymgeiswyr yn dangos eu bod yn gallu:

- Datblygu syniadau soffistigedig drwy ymchwiliadau annibynnol dwys a manwl sy'n cynnwys dadansoddiad beirniadol craff o ffynonellau cyd-destunol sy'n amlygu dyfnder eu dealltwriaeth feirniadol. (AA1)
- Rheoli cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau'n fedrus, gan arbrofi'n bwrpasol a'u defnyddio'n greadigol, gan adolygu'r gwaith i'w ddatblygu a'i fireinio. (AA2)
- Cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwleidiadau mewn ffordd soffistigedig drwy ddilyn dull ymholi cydlynol sy'n hynod berthnasol i'w bwriadau, gan fyfrio ar y dilyniant yn y gwaith a chynyddu lefel ddofn yr ystyr. (AA3)
- Cyflwyno ymatebion dychmygus, personol ac ystyrion sy'n gwireddu bwriadau mewn ffordd gydlynol a hyderus, gan ddangos dealltwriaeth graff o iaith weledol. (AA4)

Gradd C

Mae ymgeiswyr yn dangos eu bod yn gallu:

- Datblygu syniadau'n rhesymol drwy ymchwiliadau annibynnol sy'n ddwys a manwl ar y cyfan ac yn cynnwys dadansoddiad beirniadol o ffynonellau cyd-destunol sy'n amlygu dealltwriaeth resymol. (AA1)
- Gwneud defnydd o arbrofi perthnasol a rheoli cyfryngau, technegau a phrosesau'n rhesymol i archwilio a mireinio syniadau mewn ffordd resymol, gan gynnal adolygiad parhaus yn rhesymol. (AA2)
- Defnyddio dull ymholi sy'n berthnasol ar y cyfan i'w bwriadau i gofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwleidiadau, gan fyfrio'n feirniadol ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen, i ddangos ystyr. (AA3)
- Cyflwyno ymatebion dychmygus, personol ac ystyrion rhesymol sy'n gwireddu bwriadau mewn ffordd foddhaol, gan ddangos dealltwriaeth resymol o iaith weledol. (AA4)

Gradd E

Mae ymgeiswyr yn dangos eu bod yn gallu:

- Datblygu rhywfaint ar syniadau drwy ymchwiliadau sy'n rhannol ddwys a manwl ac yn cynnwys rhywfaint o ddadansoddi beirniadol o ffynonellau cyd-destunol i lywio ymatebion sylfaenol yn rhannol. (AA1)
- Dethol ac arbrofi i ymchwilio'n rhannol a mireinio syniadau, gyda rhywfaint o ymdrech i reoli a defnyddio cyfryngau, technegau a phrosesau gan adolygu rhywfaint wrth fynd ymlaen. (AA2)
- Defnyddio dull ymholi priodol i gofnodi syniadau ac arsylwadau mewn ffordd sylfaenol, gan fyfrio rhywfaint ar waith gan ddangos rhywfaint o ddealltwriaeth. (AA3)
- Cyflwyno ymateb sydd, i raddau helaeth, yn bersonol ac ystyrlon gyda'r bwriadau wedi'u gwireddu mewn ffordd sylfaenol ac yn dangos rhywfaint o ddealltwriaeth o iaith weledol. (AA4)

Gradd G

Mae ymgeiswyr yn dangos eu bod yn gallu:

- Datblygu syniadau mewn ffordd gyfyngedig, drwy ymchwiliadau sy'n cynnwys dadansoddiad beirniadol cyfyngedig o ffynonellau heb fawr ddim dylanwad ar ymatebion. (AA1)
- Archwilio a mireinio syniadau mewn ffordd gyfyngedig gyda rheolaeth leiaf ar y cyfryngau a'r technegau, gan adolygu mewn ffordd gyfyngedig sy'n cael fawr ddim dylanwad ar y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen. (AA2)
- Y dull cofnodi syniadau ac arsylwadau'n un cyfyngedig a pherthnasedd yr ymholi'n gyfyngedig o ran y bwriadau gan fyfrio fawr ddim ar y gwaith ac yn dangos dealltwriaeth gyfyngedig. (AA3)
- Cyflwyno ymateb personol cyfyngedig gyda'r ymdrech lleiaf i ddangos ystyr a gwireddu bwriadau mewn ffordd gyfyngedig, a fawr ddim dealltwriaeth o'r iaith weledol. (AA4)

TGAU Busnes

Darperir y disgrifiadau graddau canlynol er mwyn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyrhaeddiad y mae ymgeiswyr y dyfarnwyd graddau penodol iddynt yn debygol o fod wedi'u dangos. Rhaid dehongli'r disgrifiadau mewn perthynas â'r cynnwys penodol o'r fanyleb (yn ôl addasiad 2021, lle y bo'n briodol). Bydd y radd y mae'n fwyaf priodol ei dyfarnu yn dibynnu, yn ymarferol, ar faint y mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar y dystiolaeth gael eu cydbwyso â pherfformiad gwell mewn agweddau eraill.

Gradd A

Mae ymgeiswyr yn:

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n berthnasol a thrylwyr o amrediad o gysyniadau a materion busnes.

Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth feirniadol i ddewis gwybodaeth berthnasol o amrediad o ddata meintiol ac ansoddol i archwilio amrediad o gysyniadau a materion busnes mewn amrediad o gyd-destunau busnes, gan gynnwys dewis o derminoleg pwnc-benodol.

Dadansoddi a gwerthuso data meintiol ac ansoddol yn feirniadol yn effeithiol â graddau uchel o gywirdeb i ddadansoddi problemau a materion, i lunio barn wybodus ac wedi'i rhesymu i gyflwyno casgliadau wedi'u rhesymu ac wedi'u cadarnhau.

Defnyddio amrywiaeth o sgiliau meintiol perthnasol.

Gradd C

Mae ymgeiswyr yn:

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n gywir a phriodol ar y cyfan o amrediad o gysyniadau a materion busnes.

Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i ddewis gwybodaeth o amrediad o ddata meintiol ac ansoddol i archwilio amrediad o gysyniadau a materion busnes mewn cyd-destunau busnes gwahanol, gan ddefnyddio terminoleg pwnc-benodol priodol.

Dadansoddi a gwerthuso data meintiol ac ansoddol i ddadansoddi problemau a materion gyda pheth cywirdeb i lunio barn wedi'i rhesymu i gyflwyno casgliadau y mae tystiolaeth i'w cefnogi.

Defnyddio rhai sgiliau meintiol.

Gradd E

Mae ymgeiswyr yn:

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig o amrediad cyfyngedig o gysyniadau a materion busnes.

Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig i ddewis gwybodaeth o amrediad cyfyngedig o ddata meintiol ac ansoddol i archwilio amrediad cyfyngedig o gysyniadau a materion busnes mewn cyd-destunau busnes cyfyngedig, gan ddefnyddio iaith bob dydd.

Dadansoddi a gwerthuso data meintiol ac ansoddol i geisio dadansoddi problemau a materion i lunio barn wedi'i rhesymu i gyflwyno casgliadau syml y mae tystiolaeth weithiau ar gael i'w cefnogi.

Defnydd cyfyngedig o sgiliau meintiol.

Gradd G

Mae ymgeiswyr yn:

Dangos rhywfaint o wybodaeth a/neu ddealltwriaeth sylfaenol o amrediad cyfyngedig iawn o gysyniadau neu faterion busnes.

Ceisio cymhwyso gwybodaeth a/neu ddealltwriaeth sylfaenol i ddewis rhywfaint o ddata i archwilio amrediad cyfyngedig iawn o gysyniadau neu faterion busnes, gan ddefnyddio iaith syml.

Dadansoddi ac yn gwerthuso rhywfaint o ddata meintiol neu ansoddol yn syml gan geisio dadansoddi ychydig ar problemau a materion i ffurfio casgliadau arwynebol cyfyngedig sydd heb eu cefnogi.

Defnyddio rhai sgiliau meintiol syml.

TGAU Cyfrifiadureg

Darperir y disgrifiadau graddau canlynol er mwyn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyrhaeddiad y mae ymgeiswyr y dyfarnwyd graddau penodol iddynt yn debygol o fod wedi'u dangos. Rhaid dehongli'r disgrifiadau mewn perthynas â'r cynnwys penodol o'r fanyleb (yn ôl addasiad 2021, lle y bo'n briodol). Bydd y radd y mae'n fwyaf priodol ei dyfarnu yn dibynnu, yn ymarferol, ar faint y mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar y dystiolaeth gael eu cydbwyso â pherfformiad gwell mewn agweddau eraill.

Gradd A

Bydd ymgeiswyr yn galw i gof, yn dewis ac yn cyfleu gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o swyddogaeth, cymhwysiad, rhinweddau a goblygiadau amrediad eang o galedwedd a meddalwedd cyfrifiadurol a thechnolegau cysylltiedig eraill.

Byddant yn defnyddio dull systematig i ddadansoddi problemau, gan nodi a chasglu'r wybodaeth sydd ei hangen i'w datrys o gyd-destun y broblem. Maent yn cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau at y gwaith o ddylunio a gweithredu rhaglenni cyfrifiadurol effeithiol sy'n datrys y problemau hyn. Yn eu datrysiadau, maent yn effeithiol wrth fodelu sefyllfaoedd, caffael a dilysu data mewnbyn, rhoi cyfarwyddiadau mewn dilyniant, trin a phrosesu data a chyflwyno canlyniadau'r prosesu mewn fformat priodol.

Maent yn gweithio mewn ffordd systematig ac yn gwerthuso'n feirniadol y ffordd y maen nhw ac eraill yn defnyddio technoleg gyfrifiadurol i ddatrys problemau. Maent yn adolygu eu gwaith yn iterus ac yn gwneud gwelliannau lle y bo'n briodol. Mae ymgeiswyr yn gweithio'n systematig ac yn deall ac yn mabwysiadu arferion diogel a chyfrifol. Maent yn defnyddio TGCh i gyfathrebu'n effeithiol, gan ddangos synnwyr clir o bwrpas ac o'r gynulleidfa.

Gradd C

Bydd ymgeiswyr yn galw i gof, yn dewis ac yn cyfleu gwybodaeth a dealltwriaeth dda o swyddogaeth, cymhwysiad, rhinweddau a goblygiadau amrediad o galedwedd a meddalwedd cyfrifiadurol a thechnolegau cysylltiedig eraill.

Maent yn dadansoddi problemau, gan nodi a chasglu'r wybodaeth sydd ei hangen i'w datrys o gyd-destun y broblem. Maent yn cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau i ddylunio a gweithredu rhaglenni cyfrifiadurol sy'n datrys y problemau hyn. Yn eu datrysiadau, maent yn modelu sefyllfaoedd, yn caffael data mewnbyn, yn rhoi cyfarwyddiadau mewn dilyniant, yn trin a phrosesu data ac yn cyflwyno canlyniadau'r prosesu mewn fformat priodol ar y cyfan.

Maent yn adolygu eu gwaith ac yn gwerthuso'r ffordd y maen nhw ac eraill yn defnyddio technoleg gyfrifiadurol i ddatrys problemau a gwneud gwelliannau i'w gwaith lle bo hynny'n briodol. Mae ymgeiswyr yn gweithio gan ddefnyddio arferion diogel, saff a chyfrifol. Maent yn defnyddio TGCh i gyfathrebu, gan ddangos ystyriaeth o bwrpas a chynulleidfa.

Gradd E

Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dewis ac yn cyfleu gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o galedwedd a meddalwedd cyfrifiadurol a thechnolegau cysylltiedig eraill. Maent yn nodi, gydag arweiniad, y wybodaeth sy'n berthnasol i ddatrys problem o'r cyd-destun.

Byddant yn cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau i gynllunio a gweithredu rhaglenni cyfrifiadurol basig sy'n datrys y problemau hyn. Yn eu datrysiadau maent yn defnyddio modelau syml, yn casglu rhywfaint o ddata angenrheidiol, yn defnyddio cyfarwyddiadau syml i brosesu'r data ac yn cyflwyno'r canlyniadau.

Weithiau byddant yn adolygu eu gwaith ac yn rhoi sylwadau ar sut maen nhw ac eraill yn defnyddio technoleg gyfrifiadurol i ddatrys problemau a gwneud addasiadau syml i wella eu gwaith. Mae ymgeiswyr yn dangos peth ymwybyddiaeth o'r angen am arferion diogel a chyfrifol. Maent yn defnyddio TGCh i gyfathrebu, gan ddangos ymwybyddiaeth gyfyngedig o bwrpas a chynulleidfa.

Gradd G

Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dewis ac yn cyfleu gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o galedwedd a meddalwedd cyfrifiadurol a thechnolegau cysylltiedig eraill.

Maent yn nodi, gydag arweiniad, y rhan fwyaf o'r wybodaeth sy'n berthnasol i ddatrys problem o'r cyd-destun. Maent yn cymhwyso rhywfaint o wybodaeth a sgiliau cyfyngedig i ddylunio a gweithredu rhaglenni cyfrifiadurol cyfyngedig a allai ddatrys y problemau hyn. Yn eu datrysiadau maent yn defnyddio modelau cyfyngedig, yn defnyddio cyfarwyddiadau cyfyngedig i brosesu'r data a chyflwyno'r canlyniadau.

Weithiau byddant yn adolygu eu gwaith ac yn rhoi sylwadau ar sut y maent hwy ac eraill yn defnyddio technoleg gyfrifiadurol i ddatrys problemau a gallant wneud addasiadau cyfyngedig i wella eu gwaith. Maent yn dangos ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r angen am arferion diogel a chyfrifol. Maent yn defnyddio TGCh i gyfathrebu.

TGAU Dylunio a Thechnoleg (pob maes arnodedig)

Darperir y disgrifiadau graddau canlynol er mwyn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyrhaeddiad y mae ymgeiswyr y dyfarnwyd graddau penodol iddynt yn debygol o fod wedi'u dangos. Rhaid dehongli'r disgrifiadau mewn perthynas â'r cynnwys penodol o'r fanyleb (yn ôl addasiad 2021, lle y bo'n briodol). Bydd y radd y mae'n fwyaf priodol ei dyfarnu yn dibynnu, yn ymarferol, ar faint y mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar y dystiolaeth gael eu cydbwysu â pherfformiad gwell mewn agweddau eraill.

Gradd A

Gall ymgeiswyr ddangos a chymhwyso gwybodaeth fanwl a dealltwriaeth drylwyr o egwyddorion dylunio a thechnoleg, mewn sefyllfaoedd sy'n gyfarwydd ac yn anghyfarwydd.

Maent yn cymhwyso sgiliau dylunio iterus priodol i fynd i'r afael â holl anghenion a chwenychiadau'r sefyllfa neu'r defnyddiwr.

Maent yn dylunio, yn datblygu ac yn modelu iteriadau, gan roi prawf effeithiol ar eu datrysiadau, gweithio'n ddiogel gyda thrachywiredd, a gwerthuso pa mor addas yw eu cysyniad dylunio i'r pwrpas.

Mae ymgeiswyr yn cyfathrebu ac yn cyflwyno gwybodaeth yn glir ac yn fanwl gywir. Maent yn llunio barn wedi'i rhesymu'n dda ac yn dod i gasgliadau wedi'u cadarnhau. Maent yn dadansoddi ac yn gwerthuso penderfyniadau a chanlyniadau dylunio'n feirniadol mewn perthynas â chynhyrchion a'r materion ehangach yn y maes dylunio a thechnoleg.

Gradd C

Gall ymgeiswyr ddangos a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth gywir ar y cyfan o egwyddorion dylunio a thechnoleg, mewn sefyllfaoedd sy'n gyfarwydd ac yn anghyfarwydd.

Maent yn cymhwyso sgiliau dylunio iterus priodol i fynd i'r afael â holl anghenion a chwenychiadau'r sefyllfa neu'r defnyddiwr.

Maent yn dylunio, yn datblygu ac yn modelu iteriadau, gan roi prawf ar eu datrysiadau, gan weithio'n ddiogel gyda rhywfaint o drachywiredd, a gwerthuso pa mor addas yw eu cysyniad dylunio i'r pwrpas.

Mae ymgeiswyr yn cyfathrebu ac yn cyflwyno gwybodaeth yn glir ac yn fanwl gywir ar y cyfan. Maent yn dod i rai casgliadau ac yn llunio rhywfaint o farn wedi'i rhesymu'n dda. Maent yn dadansoddi ac yn gwerthuso penderfyniadau a chanlyniadau dylunio mewn perthynas â chynhyrchion a'r materion ehangach yn y maes dylunio a thechnoleg.

Gradd E

Gall ymgeiswyr ddangos a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o egwyddorion dylunio a thechnoleg, mewn sefyllfaoedd sy'n gyfarwydd ac yn anghyfarwydd.

Maent yn cymhwyso sgiliau dylunio iterus sylfaenol i fynd i'r afael â rhai o anghenion a chwenychiadau'r sefyllfa neu'r defnyddiwr.

Maent yn dylunio, yn datblygu ac yn modelu iteriadau sylfaenol, gan brofi rhywfaint, gan weithio'n ddiogel gyda rhywfaint o drachywiredd, a cheisio gwerthuso pa mor addas yw eu cysyniad dylunio i'r pwrpas.

Mae ymgeiswyr yn cyfathrebu ac yn cyflwyno gwybodaeth yn syml. Mae rhywfaint o dystiolaeth o arfarnu neu ddod i gasgliadau priodol. Maent yn dadansoddi a/neu'n gwerthuso rhai penderfyniadau a/neu ganlyniadau dylunio mewn perthynas â chynhyrchion a'r materion ehangach yn y maes dylunio a thechnoleg.

Gradd G

Gall ymgeiswyr gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth syml o egwyddorion dylunio a thechnoleg, mewn sefyllfaoedd sy'n gyfarwydd ac yn anghyfarwydd.

Maent yn cymhwyso sgiliau dylunio iterus syml i fynd i'r afael ag un neu ddau o anghenion a/neu chwenychiadau'r sefyllfa neu'r defnyddiwr.

Maent yn dylunio, yn datblygu ac yn modelu iteriadau syml gyda phrofi cyfyngedig, gan weithio'n ddiogel gyda graddfa gyfyngedig o fanwl gywirdeb.

Mae ymgeiswyr yn cyfathrebu ac yn cyflwyno gwybodaeth yn syml. Mae rhywfaint o dystiolaeth o sylwadau a/neu gasgliadau syml. Maent yn gwneud sylwadau byr am benderfyniadau dylunio a/neu ganlyniadau mewn perthynas â chynhyrchion a/neu faterion ehangach dylunio a thechnoleg.

TGAU Drama

Darperir y disgrifiadau graddau canlynol er mwyn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyrhaeddiad y mae ymgeiswyr y dyfarnwyd graddau penodol iddynt yn debygol o fod wedi'u dangos. Rhaid dehongli'r disgrifiadau mewn perthynas â'r cynnwys penodol o'r fanyleb (yn ôl addasiad 2021, lle y bo'n briodol). Bydd y radd y mae'n fwyaf priodol ei dyfarnu yn dibynnu, yn ymarferol, ar faint y mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar y dystiolaeth gael eu cydbwyso â pherfformiad gwell mewn agweddau eraill.

Gradd A

Mae'r ymgeisydd yn dangos yn gyson y gallu i greu gwaith, sy'n dangos lefel uchel o ddealltwriaeth o siâp a strwythur dramatig. Mae'r gwaith wedi'i ddatblygu'n llawn ac mae'n dangos agwedd hynod ddychmygus at yr ysgogiadau a roddir. Mae eu gwaith yn dangos dealltwriaeth ragorol o ymarferydd/arddull ddewisol yn gyson, ac yn cyfleu hynny drwy ddethol, deall a chymhwyso technegau at y gwaith i greu ystyr.

Mae cymhwysiad y sgiliau perfformio/dylunio yn effeithiol iawn. Mae'r ymgeisydd yn dangos y gallu i ddewis confensiynau perfformio perthnasol iawn i gyfleu ystyr i gynulleidfa. Arddangosir cyfraniad unigol rhagorol wrth greu a gwireddu eu gwaith.

Mae'r ymgeisydd yn dangos lefel uchel o wybodaeth a dealltwriaeth o sut mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio drwy astudio testun perfformiad. Maent yn dangos dealltwriaeth ragorol o nodweddion y testun o'u dewis a sut y caiff ystyr ei ddehongli a'i gyfleu drwy rolau'r actor, y dylunydd, y cyfarwyddwr a/neu'r gynulleidfa. Maent yn deall ac yn defnyddio terminoleg yn gywir ac yn briodol.

Yn gyson, mae eu sgiliau gwerthuso yn dangos dadansoddiad rhagorol, craff a manwl o'u sgiliau perfformio/dylunio eu hunain ac effaith eu cyfraniad eu hunain o fewn perfformiad. Maent yn dangos lefel uchel o allu wrth ddadansoddi eu bwriadau artistig gan ddeall sut y cafodd y rhain eu gwireddu mewn perfformiad. Maent yn gallu dadansoddi a gwerthuso gwaith pobl eraill o fewn cynhyrchiad theatr 'byw' mewn modd craff a manwl drwy gyfeirio at enghreifftiau â ffocws.

Gradd C

Mae'r ymgeisydd yn dangos y gallu i greu gwaith, sy'n dangos lefel gymwys o ddealltwriaeth o siâp a strwythur dramatig. Mae'r gwaith yn dangos datblygiad boddhaol a dealltwriaeth resymol o sut y gellir defnyddio'r ysgogiadau. Mae eu gwaith yn dangos amrediad o dechnegau ymarferydd/arddull a ddewiswyd, ac maent yn eu cymhwyso'n briodol i gyfleu ystyr.

Mae cymhwysiad y sgiliau perfformio/dylunio ganddynt yn gymwys. Mae'r ymgeisydd yn dangos y gallu i ddewis rhai confensiynau perfformio perthnasol i gyfleu ystyr i gynulleidfa. Arddangosir cyfraniad unigol cymwys wrth greu a gwireddu eu gwaith.

Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o sut mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio drwy astudio testun perfformiad. Byddant yn dangos dealltwriaeth gymwys o nodweddion eu testun perfformiad dewisol a sut mae ystyr yn cael ei ddehongli a'i gyfleu drwy rolau'r actor, y dylunydd, y cyfarwyddwr a/neu'r gynulleidfa. Maent yn defnyddio terminoleg briodol ar y cyfan i gefnogi eu safbwyntiau â rhesymau perthnasol, gan ddangos y gallu i symud ymlaen â gwaith.

Mae eu sgiliau gwerthuso yn dangos dadansoddiad cymwys o gymeriad, eu sgiliau perfformio/dylunio eu hunain ac effaith eu cyfraniad eu hunain o fewn perfformiad. Maent yn dangos gallu cymwys wrth ddadansoddi eu bwriadau artistig gan ddeall sut y cafodd y rhain eu gwireddu mewn perfformiad. Maent yn gallu dadansoddi a gwerthuso gwaith pobl eraill mewn adolygiad theatr 'byw' yn gyffredinol drwy gyfeirio at enghreifftiau sy'n briodol ar y cyfan.

Gradd E

Mae'r ymgeisydd yn dangos rhywfaint o allu i greu gwaith, sy'n dangos dealltwriaeth anghyson o siâp a strwythur dramatig. Mae'r gwaith yn dangos rhywfaint o ddatblygiad a dealltwriaeth o sut y gellir defnyddio'r ysgogiadau. Mae eu gwaith yn dangos rhai o dechnegau'r ymarferydd/arddull a ddewiswyd.

Ceir tystiolaeth o rywfaint o gymhwyso sgiliau perfformio/dylunio. Mae'r ymgeisydd yn dangos rhywfaint o dystiolaeth i ddewis rhai confensiynau perfformiad i gyfleu ystyr i gynulleidfa. Arddangosir rhywfaint o gyfraniad unigol wrth greu a gwireddu eu gwaith.

Mae'r ymgeisydd yn dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio drwy astudio testun perfformiad. Maent yn dangos peth dealltwriaeth o nodweddion eu testun dewisol a sut mae ystyr yn cael ei ddehongli a'i gyfleu drwy rolau'r actor, y dylunydd, y cyfarwyddwr a/neu'r gynulleidfa. Maent yn defnyddio terminoleg sylfaenol i gefnogi eu safbwyntiau â rhesymau cyffredinol, gan ddangos rhywfaint o allu i symud ymlaen â gwaith.

Mae eu sgiliau gwerthuso yn dangos rhywfaint o ddadansoddi cymeriad, eu sgiliau perfformio eu hunain ac effaith eu cyfraniad eu hunain o fewn perfformiad. Maent yn dangos rhywfaint o allu wrth ddadansoddi eu bwriadau artistig, gan ddeall sut y cafodd y rhain eu gwireddu mewn perfformiad. Maent yn dangos peth gallu i ddadansoddi a gwerthuso gwaith pobl eraill o fewn cynhyrchiad theatr 'byw' drwy gyfeirio at rai enghreifftiau priodol.

Gradd G

Mae'r ymgeisydd yn dangos gallu cyfyngedig i greu gwaith, sy'n dangos dealltwriaeth gyfyngedig o siâp a strwythur dramatig. Mae'r gwaith yn dangos syniadau heb eu datblygu o sut y gellir defnyddio'r symbyliadau. Mae eu gwaith yn dangos technegau cyfyngedig neu ddim yn defnyddio technegau'r ymarferwr/arddull a ddewiswyd.

Mae'r defnydd o sgiliau perfformio/dylunio yn gyfyngedig. Mae'r ymgeisydd yn dangos gallu cyfyngedig wrth ddewis confensiynau perfformiad i gyfleu ystyr i gynulleidfa. Dangosir cyfraniad unigol cyfyngedig wrth greu a gwireddu eu gwaith.

Mae'r ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o sut mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio drwy astudio testun perfformio. Maent yn dangos dealltwriaeth gyfyngedig o nodweddion y testun o'u dewis a sut y caiff ystyr ei ddehongli a'i gyfleu drwy rolau'r actor, y dylunydd, y cyfarwyddwr a/neu'r gynulleidfa. Maent yn darparu ymateb sylfaenol arwynebol ar lefel or-symbl a chyffredinol i werthuso gwaith

Mae eu sgiliau gwerthuso yn dangos dadansoddiad cyfyngedig o gymeriad, eu sgiliau perfformio eu hunain ac effaith eu cyfraniad eu hunain o fewn perfformiad. Maent yn dangos gallu cyfyngedig wrth ddadansoddi eu bwriadau artistig gan ddeall sut y cafodd y rhain eu gwireddu mewn perfformiad. Maent yn dangos gallu cyfyngedig i ddadansoddi a gwerthuso gwaith pobl eraill o fewn cynhyrchiad theatr 'byw' ac yn cynnig cyfeiriadau cyfyngedig ynghylch enghreifftiau priodol.

TGAU Saesneg Iaith

Darperir y disgrifiadau graddau canlynol er mwyn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyrhaeddiad y mae ymgeiswyr y dyfarnwyd graddau penodol iddynt yn debygol o fod wedi'u dangos. Rhaid dehongli'r disgrifiadau mewn perthynas â'r cynnwys penodol o'r fanyleb (yn ôl addasiad 2021, lle y bo'n briodol). Bydd y radd y mae'n fwyaf priodol ei dyfarnu yn dibynnu, yn ymarferol, ar faint y mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar y dystiolaeth gael eu cydbwyso â pherfformiad gwell mewn agweddau eraill.

Gradd A

Bydd ymgeiswyr yn dangos y gallu i symud y tu hwnt i gyflwyno gwybodaeth yn syml er mwyn gwerthuso a dadansoddi testunau sy'n fwy cymhleth. Bydd y rhain yn aml yn fater o ddiddordeb a phryder personol. Bydd y sgwrs wedi'i strwythuro'n dda ac wedi'i chynllunio i ymgysylltu â'r gynulleidfa. Ni fydd llawer o ddibyniaeth ar nodiadau neu awgrymiadau. Bydd yr iaith yn amrywiol ac yn cynnwys amrediad eang o eirfa wedi'i dewis yn ofalus. Bydd ymgais fwriadol i ddefnyddio iaith i gael effaith.

Mae ymgeiswyr yn ymateb yn feirniadol ac yn graff i amrywiaeth o destunau, gan ddatblygu dehongliadau a gwerthuso sut maent yn ymgysylltu ac yn effeithio ar y darlennydd. Byddant yn gallu dadansoddi'n fanwl a gyda mewnwelediad sut mae awduron yn defnyddio iaith, gramadeg a strwythur. Maent yn dangos dealltwriaeth gadarn o destunau, gan archwilio ystyron eglur ac ymhlyg yn hyderus. Mae dewis tystiolaeth, lle bo'n berthnasol, yn bwrpasol ac yn cael ei ddefnyddio'n argyhoeddiadol i gadarnhau dadansoddiad. Mae ymgeiswyr yn gwneud cysylltiadau argyhoeddiadol a pherthnasol rhwng/ar draws testunau wrth grynhoi, cyfiosod a chymharu gwybodaeth.

Mae ysgrifennu ymgeiswyr yn cyfathrebu'n effeithiol â syniadau aeddfed a farnwyd yn dda. Mae ysgrifennu'n cael ei gynnal a'i addasu'n fedrus i bwrpas a chynulleidfa, gan ddefnyddio technegau'n hyderus i ymgysylltu'n llawn â'r darlennydd. Defnyddir nodweddion strwythurol yn effeithiol i lunio a dilyniannu ysgrifennu'n bwrpasol. Defnyddir amrediad eang o strwythurau brawddegol cywir ac amrywiol i ymgysylltu'n fwriadol. Mae dewisiadau geirfa yn cyfleu union ystyr ac yn dangos uchelgais yn yr ystod. Mae'r defnydd o sillafu, atalnodi a gramadeg yn ddiogel, yn gywir ac yn fanwl gywir. Bydd ysgrifennu bron yn ddi-wall.

Gradd C

Bydd ymgeiswyr yn rhoi cyflwyniad gweddol ddatblygedig o hyd a all fod yn seiliedig ar ffeithiau neu wybodaeth ond a fydd hefyd yn dangos rhywfaint o dystiolaeth o ddadansoddi a gwerthuso syml – er enghraifft, os yw'n seiliedig ar weithgaredd hamdden, efallai y bydd sylwadau ar y manteision i iechyd neu sgiliau rhyngbersonol. Bydd y sgwrs yn cael ei threfnu ac efallai y bydd rhywfaint o ddibyniaeth o hyd ar awgrymiadau neu nodiadau. Bydd rhywfaint o ymdrech i ymgysylltu â'r gynulleidfa drwy gwestiynau iaith neu rhethregol priodol, er enghraifft. Bydd yr iaith a ddefnyddiwyd yn amrywiol gyda geirfa ehangach a mwy o gysondeb o ran cywirdeb gramadegol.

Mae ymgeiswyr yn deall ac yn dangos sut mae ystyr a gwybodaeth yn cael eu cyfleu mewn amrediad o destunau. Byddant yn gallu dangos dealltwriaeth o sut mae awduron yn defnyddio iaith, gramadeg a strwythur. Byddant yn dangos dealltwriaeth ddilys o destunau drwy ymateb i ystyron penodol ac ymhlyg. Mae'r broses o ddethol tystiolaeth yn berthnasol ac yn cael ei defnyddio'n briodol i gefnogi pwyntiau a wnaed. Gall ymgeiswyr grynhoi, cyfiosod a chymharu gwybodaeth/syniadau o wahanol ffynonellau.

Mae ysgrifennu ymgeiswyr yn gydlynol ac yn ddiddorol gyda rhai syniadau wedi'u datblygu'n feddylgar. Mae ysgrifennu yn dangos ymwybyddiaeth glir o bwrpas a chynulleidfa ac yn defnyddio technegau i ennyn diddordeb y darlennydd. Defnyddir nodweddion strwythurol yn ofalus i ddilyniannu a threfnu ysgrifennu. Defnyddir amrediad o strwythurau brawddegol amrywiol i gael rhywfaint o effaith. Defnyddir amrywiaeth o ddewisiadau geirfa yn bwrpasol i gyfleu ystyr manwl gywir. Mae'r defnydd o sillafu, atalnodi a gramadeg yn ddiogel ar y cyfan ac yn cael ei ddefnyddio'n gywir. Bydd ysgrifennu'n gyson o ran rheolaeth ar y cyfan.

Gradd E

Bydd ymgeiswyr yn rhoi sgwrs wedi'i strwythuro'n syml ar bwnc a fydd yn seiliedig ar wybodaeth yn gyffredinol. Bydd ymgais i ymgysylltu â'r gynulleidfa ar lefel syml fel defnyddio cyswllt llygaid neu anerchiad uniongyrchol. Efallai y bydd rhywfaint o ddibyniaeth ar nodiadau neu awgrymiadau. Os gofynnir cwestiynau, bydd yr atebion yn rhai syml. Bydd yr iaith a ddefnyddir yn dangos peth amrediad geirfa ac efallai y bydd ymgais i ddefnyddio'r cywair cywir ar gyfer y gynulleidfa.

Mae ymgeiswyr yn dangos peth dealltwriaeth o'r prif syniadau, themâu neu ddadl mewn amrediad o destunau. Mae ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth syml o sut y caiff ystyr a gwybodaeth eu cyfleu. Maent yn gwneud rhai sylwadau perthnasol am sut mae awduron yn creu effeithiau ac yn dangos ymwybyddiaeth o ystyron amlwg ac ymhlyg. Gallant gyfeirio at dystiolaeth ac enghreifftiau penodol wrth roi sylwadau ar y testun. Gall ymgeiswyr wneud pwyntiau crynodedol syml a chysylltiadau rhwng testunau.

Mae ysgrifennu ymgeiswyr yn cynhyrchu rhywfaint o ysgrifennu cydlynol gyda rhai syniadau diddorol. Mae ysgrifennu'n dangos peth ymwybyddiaeth o bwrpas a chynulleidfa ac efallai y bydd ymgais i ddefnyddio rhai technegau i ennyn diddordeb y darlennydd. Gellir defnyddio rhai nodweddion strwythurol yn rhesymegol i drefnu a dilyniannu syniadau. Gall rhywfaint o amrywio strwythurau brawddegau fod yn amlwg er bod hynny'n rhywbeth sy'n digwydd yn anghyson. Mae rhywfaint o amrediad geirfa yn amlwg. Mae'r defnydd o sillafu, atalnodi a gramadeg yn dangos rhywfaint o reolaeth ond gall fod yn anghyson. Gall ysgrifennu fod yn syml o ran arddull a chwmpas.

Gradd G

Bydd ymgeiswyr yn rhoi cyflwyniad eithaf byr (tua dwy funud neu lai o bosibl) a fydd yn ffeithiol ar y cyfan. Efallai y bydd rhywfaint o ddibyniaeth ar nodiadau neu anogaeth gan yr athro ar ffurf cwestiynau. Bydd yr iaith yn syml a gall fod peth diffyg manwl gywirdeb o ran gramadeg.

Mae ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o'r prif syniadau neu themâu mewn testun. Mae ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o sut y caiff ystyr ei gyfleu. Gallant wneud rhai sylwadau perthnasol am ystyron eglur ac ymhlyg. Gallant gyfeirio at dystiolaeth ac enghreifftiau penodol wrth roi sylwadau ar y testun. Gall ymgeiswyr wneud pwyntiau crynodedol sylfaenol a chysylltiadau rhwng testunau a/neu syniadau. Mae atebion yn debygol o fod yn fyr ac yn anghyson.

Mae cydlynid sylfaenol i ysgrifennu ymgeiswyr ond gall fod yn fyr a heb fawr o sylwedd. Mae ysgrifennu yn dangos ymwybyddiaeth gyfyngedig o bwrpas a chynulleidfa gyda rhywfaint o gynnwys perthnasol. Gellir defnyddio nodweddion strwythurol sylfaenol i drefnu a dilyniannu syniadau yn unig. Mae amrediad cyfyngedig o strwythurau brawddegau a geirfa yn amlwg. Mae'r defnydd o sillafu, atalnodi a gramadeg yn gyfyngedig ac yn anghyson. Gall gwallau fod yn sylfaenol ac yn niferus.

TGAU Llenyddiaeth Saesneg

Darperir y disgrifiadau graddau canlynol er mwyn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyrhaeddiad y mae ymgeiswyr y dyfarnwyd graddau penodol iddynt yn debygol o fod wedi'u dangos. Rhaid dehongli'r disgrifiadau mewn perthynas â'r cynnwys penodol o'r fanyleb (yn ôl addasiad 2021, lle y bo'n briodol). Bydd y radd y mae'n fwyaf priodol ei dyfarnu yn dibynnu, yn ymarferol, ar faint y mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar y dystiolaeth gael eu cydbwyso â pherfformiad gwell mewn agweddau eraill.

Gradd A

Mae ymgeiswyr yn ymateb yn feirniadol i destunau, gan ddangos mewnwelediad a rhywfaint o ddealltwriaeth hyderus o is-destun.

Mae ymgeiswyr yn archwilio ac yn gwerthuso'n hyderus sut mae iaith, strwythur a ffurf yn cyfrannu at ystyr.

Mae ymgeiswyr yn gwneud cysylltiadau craff a chymariaethau rhwng testunau.

Mae ymgeiswyr yn dangos rhywfaint o ddealltwriaeth graff o sut mae cyd-destunau'n siapio testunau.

Gradd C

Mae ymgeiswyr yn dangos rhywfaint o ddealltwriaeth gadarn o destunau, gan gynnwys cymeriadau, themâu a pherthnasoedd lle bo hynny'n berthnasol. Ceir tystiolaeth o'r ddealltwriaeth hon drwy ryw gyfeiriad ategol at fanylion yn y testun.

Mae ymgeiswyr yn ymateb yn bersonol i rai effeithiau iaith, strwythur a ffurf, gan gyfeirio at fanylion testunol addas i gefnogi eu safbwyntiau a'u hymatebion.

Mae ymgeiswyr yn archwilio rhai cysylltiadau a chymariaethau ystyrion rhwng testunau.

Mae ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth o rai o gyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol testunau.

Gradd E

Mae ymgeiswyr yn dangos peth dealltwriaeth o brif nodweddion testunau.

Mae rhywfaint o ymateb personol cyfyngedig i effeithiau iaith, strwythur a ffurf mewn testunau i'w weld gan ymgeiswyr.

Mae ymgeiswyr yn gwneud cysylltiadau a chymariaethau amlwg rhwng testunau.

Mae ymgeiswyr yn dangos ymwybyddiaeth syml o gyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol.

Gradd G

Mae ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth gyfyngedig iawn o destunau.

Gall ymgeiswyr ddewis o'r testunau a gallant wneud sylwadau cyffredinol ar iaith, strwythur a ffurf.

Gall ymgeiswyr wneud cysylltiadau cyfyngedig a chymariaethau rhwng testunau.

Efallai fod gan ymgeiswyr ymwybyddiaeth gyfyngedig o gyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol er efallai na fydd hyn bob amser yn berthnasol.

TGAU Bwyd a Maeth

Darperir y disgrifiadau graddau canlynol er mwyn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyrhaeddiad y mae ymgeiswyr y dyfarnwyd graddau penodol iddynt yn debygol o fod wedi'u dangos. Rhaid dehongli'r disgrifiadau mewn perthynas â'r cynnwys penodol o'r fanyleb (yn ôl addasiad 2021, lle y bo'n briodol). Bydd y radd y mae'n fwyaf priodol ei dyfarnu yn dibynnu, yn ymarferol, ar faint y mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar y dystiolaeth gael eu cydbwysu â pherfformiad gwell mewn agweddau eraill.

Gradd A

Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dewis ac yn cyfleu gwybodaeth ragorol a manwl a dealltwriaeth drylwyr o holl feysydd allweddol y fanyleb, h.y. Nwyddau bwyd, egwyddorion maeth, deiet ac iechyd da, gwyddor wyd, tarddiad bwyd a choginio a pharatoi bwyd. welir tystiolaeth o'r cyrhaeddiad hwn o fewn ymatebion ysgrifenedig ytbwys, manwl a thra chymwys i asesiad(au) sy'n ymdrin â'r holl amcanion asesu (AA1, AA2, ac AA4) ar gyfer Uned 1 ac mewn tystiolaeth ysgrifenedig i gefnogi Uned 2 fyw (tasg 2), Asesiad Di-arholiad neu dasg math Asesiad Di-arholiad.

Maent yn cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau perthnasol iawn mewn amrediad eang o sefyllfaoedd i gynllunio'n fanwl, cyflawni a chwblhau tasgau ymarferol sy'n gysylltiedig â bwyd. Gallant gynhyrchu seigiau medrus/cymhleth gyda chyfywydd fel y bo'n briodol, gan weithio'n ddiogel, yn hylan ac yn arbennig o fanwl a soffistigedig. Gallant weithio'n annibynnol mewn modd hynod gymwys a hyderus i gynhyrchu canlyniadau rhagorol ac i ddangos cyrhaeddiad rhagorol mewn perthynas ag AA3.

Byddant yn dadansoddi ac yn gwerthuso'r canlyniadau ymarferol a'r dystiolaeth ysgrifenedig sydd ar gael.

Maent yn cyflwyno gwybodaeth yn glir ac yn gywir, gan ffurfio barn resymegol a chyflwyno casgliadau wedi'u cyfiawnhau. Gallant gyfeirio at:

- materion yn ymwneud â dewisiadau, tarddiad a chynhyrchu bwyd
- bwyd maen nhw eu hunain ac eraill wedi'i wneud.

Mae unrhyw waith ysgrifenedig a gynhyrchir wedi'i strwythuro'n dda iawn, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir. Defnyddir termau arbenigol yn gwbl gywir ac yn rhwydd.

Gradd C

Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dewis ac yn cyfleu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o feysydd allweddol y fanyleb h.y. Nwyddau bwyd, egwyddorion maeth, deiet ac iechyd da, gwyddor bwyd, tarddiad bwyd a choginio a pharatoi bwyd. Gwelir tystiolaeth o gyrhaeddiad mewn ymatebion ysgrifenedig da a chlir i asesiad(au) sy'n dangos sylw i'r amcanion asesu (AA1, AA2, ac AA4) ar gyfer Uned 1 ac mewn tasg fyw Uned 2 (tasg 2), Asesiad Di-arholiad neu dasg math Asesiad Di-arholiad.

Byddant yn cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau addas mewn amrediad o sefyllfaoedd i gynllunio, cyflawni a chwblhau tasgau ymarferol sy'n gysylltiedig â bwyd. Gallant gynhyrchu seigiau gyda chyfywydd fel y bo'n briodol, gyda rhywfaint o gymhlethdod, gan weithio'n ddiogel, yn hylan ac yn fanwl gywir. Nid oes angen fawr ddim cymorth, os o gwbl, i gwblhau tasgau i gynhyrchu canlyniadau derbyniol ac i ddangos cyrhaeddiad da mewn perthynas ag AA3.

Byddant yn gwneud ymgais i ddadansoddi a gwerthuso'r canlyniadau ymarferol a'r dystiolaeth ysgrifenedig sydd ar gael. Byddant yn cyflwyno gwybodaeth, yn ffurfio rhywfaint o farn ac yn cyflwyno casgliadau priodol ar y cyfan. Gallant gyfeirio at:

- materion yn ymwneud â dewisiadau, tarddiad a chynhyrchu bwyd
- bwyd maen nhw eu hunain ac eraill wedi'i wneud.

Mae unrhyw waith ysgrifenedig a gynhyrchir wedi'u strwythuro, yn defnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir ar y cyfan, ac mae cywirdeb a rhwyddineb yn perthyn i'r defnydd o dermau.

Gradd E

Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dewis ac yn cyfleu rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o rai o feysydd allweddol y fanyleb, h.y. Nwyddau bwyd, egwyddorion maeth, deiet ac iechyd da, gwyddor bwyd, tarddiad bwyd a choginio a pharatoi bwyd. Gwelir tystiolaeth o gyrhaeddiad mewn ymatebion ysgrifenedig a all amrywio o ran y manylion, i asesiad sy'n ymdrin ag AA1, AA2 ac AA3 ar gyfer Uned 1 ac mewn elfennau o dasg Uned 2 (Tasg 2), Asesiad Di-arholiad byw neu dasg math Asesiad Di-arholiad.

Gallant gymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn rhai sefyllfaoedd i gynllunio, cyflawni a chwblhau tasgau ymarferol sy'n gysylltiedig â bwyd. Gallant gynhyrchu seigiau a rhai cyfwydydd gyda lefelau amrywiol o gymhlethdod tra'n gweithio'n ddiogel, yn hylan ac yn weddol fanwl gywir. Gall y canlyniadau amrywio o ran ansawdd. Efallai y bu angen rhywfaint o gymorth i gwblhau tasgau.

Byddant yn adolygu eu canlyniadau ymarferol a'r dystiolaeth ysgrifenedig sydd ar gael ac yn cyflwyno rhai casgliadau priodol mewn perthynas â:

- materion yn ymwneud â dewisiadau, tarddiad a chynhyrchu bwyd
- bwyd maen nhw eu hunain ac eraill wedi'i wneud.

Yn gyffredinol, mae unrhyw waith ysgrifenedig a gynhyrchir wedi'i strwythuro, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir ar y cyfan. Defnyddir rhywfaint o derminoleg arbenigol gyda chryn dipyn o fanwl gywirdeb a rhwyddineb.

Gradd G

Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dewis ac yn cyfleu gwybodaeth gyfyngedig ac ond ychydig iawn o ddealltwriaeth o feysydd allweddol y fanyleb, h.y. Nwyddau bwyd, egwyddorion maeth, deiet ac iechyd da, gwyddoniaethbwyd, tarddiad bwyd a choginio a pharatoi bwyd. Gwelir tystiolaeth o gyrhaeddiad mewn ymatebion ysgrifenedig cyfyngedig i gwestiynau o asesiad Uned 1 neu mewn gwaith cefnogol ar gyfer tasg math Asesiad Di-arholiad Uned 2.

Gallant gymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn un neu ddwy sefyllfa i gynllunio, cyflawni a chwblhau tasgau ymarferol sy'n gysylltiedig â bwyd. Gallant gynhyrchu seigiau syml sy'n dangos sgiliau sylfaenol, gweithio'n ddiogel, yn hylan a ddim yn rhy fanwl gywir. Efallai y bu angen cymorth aml i gwblhau tasgau.

Maent yn ceisio adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael a chyflwyno sylwadau cyfyngedig iawn ar:

- materion yn ymwneud â dewisiadau, tarddiad a chynhyrchu bwyd
- bwyd maen nhw eu hunain ac eraill wedi'i wneud.

Efallai nad oes strwythur i unrhyw waith ysgrifenedig a gynhyrchir, mae'r cywirdeb sydd ynddo o ran gramadeg, atalnodi a sillafu yn gyfyngedig. Mae'r defnydd o unrhyw derminoleg arbenigol yn gyfyngedig o ran ei gywirdeb a'i rwyddineb.

TGAU Daearyddiaeth

Darperir y disgrifiadau graddau canlynol er mwyn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyrhaeddiad y mae ymgeiswyr y dyfarnwyd graddau penodol iddynt yn debygol o fod wedi'u dangos. Rhaid dehongli'r disgrifiadau mewn perthynas â'r cynnwys penodol o'r fanyleb (yn ôl addasiad 2021, lle y bo'n briodol). Bydd y radd y mae'n fwyaf priodol ei dyfarnu yn dibynnu, yn ymarferol, ar faint y mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar y dystiolaeth gael eu cydbwyso â pherfformiad gwell mewn agweddau eraill.

Gradd A

Mae ymgeiswyr yn:

Dangos gwybodaeth berthnasol a chynhwysfawr am wybodaeth a materion daearyddol (AA1.1).

Dangos dealltwriaeth graff o ryngweithiadau a rhyngberthnasau cymhleth rhwng pobl a'r amgylchedd a rhwng ffenomena daearyddol (AA1.2).

Llunio dadleuon sy'n cynnal ac yn argyhoeddi i ddod i gasgliadau gyda digonedd o dystiolaeth (AA2).

Defnyddio a gwerthuso amrediad eang o sgiliau a thechnegau daearyddol yn effeithiol (AA3).

Gradd C

Mae ymgeiswyr yn:

Dangos gwybodaeth sy'n gywir a phriodol ar y cyfan am wybodaeth a materion daearyddol (AA1.1).

Dangos dealltwriaeth glir o ryngweithiadau a rhyngberthnasau rhwng pobl a'r amgylchedd a rhwng ffenomena cysyniadau daearyddol (AA1.2).

Llunio dadleuon cydlynol i ddod i gasgliadau gyda thystiolaeth i'w cefnogi (AA2).

Defnyddio amrediad o sgiliau a thechnegau daearyddol yn gywir, gan ddangos dealltwriaeth o'u pwrpas (AA3).

Gradd E

Mae ymgeiswyr yn:

Dangos gwybodaeth gyfyngedig am wybodaeth a materion daearyddol (AA1.1).

Dangos dealltwriaeth sylfaenol o agweddau ar ryngweithio a rhyngberthnasau rhwng pobl a'r amgylchedd a rhwng ffenomena daearyddol (AA1.2).

Gwneud sylwadau syml gan gyfeirio rhywfaint at dystiolaeth (AA2).

Defnyddio rhai sgiliau a thechnegau daearyddol sylfaenol gyda chywirdeb cyfyngedig (AA3).

Gradd G

Mae ymgeiswyr yn:

Dangos gwybodaeth sylfaenol/gor-sympl am wybodaeth a materion daearyddol (AA1.1).

Dangos dealltwriaeth or-sympl o agweddau ar ryngweithio a rhyngberthnasau rhwng pobl a'r amgylchedd a rhwng ffenomena daearyddol (AA1.2).

Gwneud sylwadau syml gan gyfeirio'n gyfyngedig at dystiolaeth (AA2).

TGAU Hanes

Darperir y disgrifiadau graddau canlynol er mwyn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyrhaeddiad y mae ymgeiswyr y dyfarnwyd graddau penodol iddynt yn debygol o fod wedi'u dangos. Rhaid dehongli'r disgrifiadau mewn perthynas â'r cynnwys penodol o'r fanyleb (yn ôl addasiad 2021, lle y bo'n briodol). Bydd y radd y mae'n fwyaf priodol ei dyfarnu yn dibynnu, yn ymarferol, ar faint y mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar y dystiolaeth gael eu cydbwyso â pherfformiad gwell mewn agweddau eraill.

Gradd A

Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dewis, yn trefnu ac yn defnyddio gwybodaeth hanesyddol fanwl a chywir yn effeithiol ac yn gyson. Maent yn dangos dealltwriaeth drylwyr o'r cyfnodau, y themâu a'r testunau hanesyddol a astudiwyd. Maent yn cyfleu eu syniadau gan ddefnyddio termau arbenigol yn gywir ac yn briodol.

Maent yn dangos eu dealltwriaeth o'r gorffennol drwy esboniadau datblygedig, rhesymegol ac wedi'u cyfiawnhau'n dda. Maent yn gwneud dadansoddiadau craff o gysyniadau, nodweddion a nodweddion allweddol y cyfnodau a astudir, a'r rhyngberthnasau rhyngddynt.

Maent yn gwerthuso ac yn defnyddio amrediad o ffynonellau gwybodaeth yn feirniadol mewn cyd-destun hanesyddol i ymchwilio i gwestiynau, problemau neu faterion hanesyddol yn annibynnol, ac i ddod i gasgliadau sy'n rhesymegol ac wedi'u cyfiawnhau.

Maent yn cydnabod ac yn rhoi sylwadau rhesymegol ar sut a pham y mae digwyddiadau, pobl a materion wedi'u dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd ac yn rhoi ystyriaeth ddatblygedig i'w dilysrwydd mewn perthynas â'u cyd-destun hanesyddol.

Gradd C

Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dewis, yn trefnu ac yn defnyddio gwybodaeth hanesyddol mewn ffordd gywir a pherthnasol. Maent yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r cyfnodau, y themâu a'r testunau hanesyddol a astudir. Maent yn defnyddio termau hanesyddol yn briodol wrth gyfleu eu syniadau.

Maent yn dangos eu dealltwriaeth o'r gorffennol drwy ddisgrifiadau strwythuredig ac esboniadau o brif gysyniadau, nodweddion a phriodoleddau'r cyfnodau a astudiwyd. Mae eu disgrifiadau'n gywir, ac mae eu hesboniadau'n dangos dealltwriaeth o achosion, canlyniadau a newidiadau perthnasol.

Maent yn gwerthuso ac yn defnyddio ffynonellau gwybodaeth yn feirniadol mewn cyd-destun hanesyddol i ymchwilio i gwestiynau, problemau neu faterion hanesyddol, a gyda rhywfaint o arweiniad, i ddod i gasgliadau rhesymegol.

Maent yn cydnabod ac yn rhoi sylwadau ar sut a pham y mae digwyddiadau, pobl a materion wedi'u dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd ac yn rhoi ystyriaeth briodol i'w dilysrwydd yn y cyd-destun hanesyddol.

Gradd E

Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dewis ac yn trefnu rhywfaint o wybodaeth hanesyddol berthnasol i ddangos dealltwriaeth sylfaenol o gyfnodau, themâu a thestunau hanesyddol a astudir. Maent yn cyfleu eu syniadau gan ddefnyddio iaith bob dydd.

Maent yn dangos eu dealltwriaeth o'r gorffennol drwy ddisgrifiad sylfaenol o resymau, canlyniadau a newidiadau mewn perthynas â'r digwyddiadau, y bobl a'r materion a astudiwyd. Maent yn disgrifio digwyddiadau, materion neu gyfnodau yn ddigon sylfaenol, gan gynnwys syniadau, credoau ac agweddau nodweddiadol.

Maent yn deall ffynonellau gwybodaeth a, gan eu derbyn ar eu golwg, yn dechrau ystyried eu defnyddioldeb ar gyfer ymchwilio i faterion hanesyddol ac yn dod i gasgliadau sylfaenol.

Maent yn nodi rhai gwahaniaethau rhwng ffyrdd y mae digwyddiadau, pobl neu faterion wedi'u cynrychioli a'u dehongli, ac yn dechrau efallai nodi rhai o'r rhesymau dros y rhain.

Gradd G

Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dewis ac yn trefnu rhywfaint o wybodaeth hanesyddol berthnasol i ddangos dealltwriaeth gyfyngedig o gyfnodau, themâu a thestunau hanesyddol a astudir. Maent yn cyfleu eu syniadau gan ddefnyddio iaith syml.

Maent yn dangos eu dealltwriaeth gyfyngedig o'r gorffennol drwy ddisgrifio rhesymau, canlyniadau a newidiadau yn or-syml mewn perthynas â'r digwyddiadau, y bobl a'r materion a astudiwyd. Maent yn rhoi disgrifiadau byr o ddigwyddiadau, materion neu gyfnodau, gan gynnwys syniadau, credoau ac agweddau nodweddiadol.

Maent yn dangos peth dealltwriaeth o ffynonellau gwybodaeth ac, o'u cymryd ar eu gwerth enwol, yn dechrau ystyried eu defnyddioldeb ar gyfer ymchwilio i faterion hanesyddol ac yn dod i gasgliadau cyfyngedig.

Byddant yn dechrau nodi rhai gwahaniaethau rhwng ffyrdd y mae digwyddiadau, pobl neu faterion wedi'u cynrychioli a'u dehongli, a gallant ddechrau nodi rhesymau syml dros y rhain.

TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant Gradd Unigol a Dwyradd

Darperir y disgrifiadau graddau canlynol er mwyn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyrhaeddiad y mae ymgeiswyr y dyfarnwyd graddau penodol iddynt yn debygol o fod wedi'u dangos. Rhaid dehongli'r disgrifiadau mewn perthynas â'r cynnwys penodol o'r fanyleb (yn ôl addasiad 2021, lle y bo'n briodol). Bydd y radd y mae'n fwyaf priodol ei dyfarnu yn dibynnu, yn ymarferol, ar faint y mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar y dystiolaeth gael eu cydbwyso â pherfformiad gwell mewn agweddau eraill.

Gradd A

Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dewis ac yn cyfleu gwybodaeth ragorol a manwl gyda dealltwriaeth drylwyr o holl feysydd allweddol y fanyleb.

Gwelir tystiolaeth o'r cyrhaeddiad hwn mewn ymatebion ysgrifenedig cytbwys i asesiad(au) sy'n ymdrin â'r holl amcanion asesu (AA1, AA2 ac AA3) ar gyfer Uned 1/3, ac mewn tystiolaeth ysgrifenedig i gefnogi tasg Asesiad Di-arholiad uned 2/4 neu dasg math Asesiad Di-arholiad.

Ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad, mae ymgeiswyr yn cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau perthnasol iawn o amrywiaeth o ffynonellau, ac mewn amrediad eang o sefyllfaoedd i gynllunio a chyflawni'r dasg (tasgau) a nodir yn annibynnol. Maent yn dadansoddi ac yn gwerthuso'r dystiolaeth sydd ar gael, gan gyflwyno gwybodaeth yn glir ac yn gywir. Byddant yn llunio barn wybodus resymegol ac yn cyflwyno casgliadau manwl a chywir.

Mae unrhyw waith ysgrifenedig a gynhyrchir wedi'i fynegi'n glir ac yn dangos defnydd cywir o derminoleg. Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda iawn gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir.

Gradd C

Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dewis ac yn cyfleu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o feysydd allweddol y fanyleb.

Gwelir tystiolaeth o gyrhaeddiad mewn ymatebion ysgrifenedig i asesiad(au) sy'n dangos sylw i'r amcanion asesu (AA1, AA2 ac AA3), ar gyfer Uned 1/3 ac mewn tystiolaeth ysgrifenedig i gefnogi tasg Asesiad Di-arholiad uned 2/4 neu dasg math Asesiad Di-arholiad.

Ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad, mae ymgeiswyr yn cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau perthnasol o wahanol ffynonellau ac mewn amrediad o sefyllfaoedd i gynllunio a chyflawni'r dasg a nodir gydag ond ychydig o gefnogaeth cyfyngedig. Mae ymgeiswyr yn adolygu rhywfaint o'r dystiolaeth sydd ar gael, gan werthuso peth gwybodaeth yn glir, a gyda pheth cywirdeb. Mae ymgeiswyr yn cyflwyno gwybodaeth yn glir ac yn gywir, gan ffurfio rhywfaint o farn a dod i gasgliadau priodol. Gallant ddefnyddio gwybodaeth i ffurfio dadansoddiad cymwys.

Mae mynegiant unrhyw waith ysgrifenedig a gynhyrchir yn ddigonol ac mae'n dangos defnydd priodol o derminoleg. Ar y cyfan mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda gyda gramadeg, atalnodi a sillafu eithaf cywir.

Gradd E

Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dewis ac yn cyfleu rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o rai o feysydd allweddol y fanyleb.

Gwelir tystiolaeth o gyrhaeddiad mewn ymatebion ysgrifenedig i asesiad(au) sy'n ymdrin ag AA1, AA2 ac AA3 ar gyfer Uned 1/3 ac mewn elfennau o dasg Asesiad Di-arholiad uned 2/4 neu dasg math Asesiad Di-arholiad.

Gall ymgeiswyr gymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sylfaenol mewn rhai sefyllfaoedd i gynllunio, cynnal a chwblhau rhai ymchwiliadau a thasgau gyda chefnogaeth. Maent yn adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael ac yn cyflwyno rhai casgliadau priodol mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant. Mae ymgeiswyr yn cyflwyno gwybodaeth gan ffurfio rhywfaint o farn a dod i gasgliadau sylfaenol. Maent yn ceisio defnyddio gwybodaeth i ffurfio dadansoddiad sylfaenol.

Mae unrhyw waith ysgrifenedig a gynhyrchir yn dangos defnydd sylfaenol o derminoleg. Mae peth tystiolaeth o strwythur i'r gwaith ysgrifennu ond mae gwallau i'w gweld o ran gramadeg, atalnodi a sillafu.

Gradd G

Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dewis ac yn cyfleu gwybodaeth gyfyngedig gydag ychydig iawn o ddealltwriaeth o rai meysydd o'r fanyleb.

Gwelir tystiolaeth o gyrhaeddiad mewn ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau o asesiad Uned 1/3 neu mewn gwaith cefnogol ar gyfer tasg Asesiad Di-arholiad uned 2 neu dasg math Asesiad Di-arholiad.

Gall ymgeiswyr gymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau cyfyngedig mewn un neu ddwy o sefyllfaoedd i gynllunio, cynnal ymchwiliadau a thasgau syml gydag arweiniad a chefnogaeth sylweddol. Mae ymgeiswyr yn ceisio adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael a chyflwyno sylwadau sylfaenol iawn ar y materion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant. Mae ymgeiswyr yn defnyddio gwybodaeth o amrywiaeth gyfyngedig o ffynonellau sy'n arwain at ddadansoddiad cyfyngedig.

Efallai nad oes strwythur i unrhyw waith ysgrifenedig a gynhyrchir, ac mae'r defnydd o derminoleg yn gyfyngedig. Gall fod defnydd cyfyngedig o ramadeg, atalnodi a sillafu.

TGAU TGCh

Gradd Unigol a Chwrs Byr

Darperir y disgrifiadau graddau canlynol er mwyn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyrhaeddiad y mae ymgeiswyr y dyfarnwyd graddau penodol iddynt yn debygol o fod wedi'u dangos. Rhaid dehongli'r disgrifiadau mewn perthynas â'r cynnwys penodol o'r fanyleb (yn ôl addasiad 2021, lle y bo'n briodol). Bydd y radd y mae'n fwyaf priodol ei dyfarnu yn dibynnu, yn ymarferol, ar faint y mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar y dystiolaeth gael eu cydbwyso â pherfformiad gwell mewn agweddau eraill.

Gradd A

Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dethol ac yn cyfathrebu gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o amrywiaeth eang o TGCh, gan gynnwys effaith ei defnyddio'n gymdeithasol ac yn fasnachol.

Maent yn cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau i amrywiaeth o sefyllfaoedd, yn dethol ac yn defnyddio amrywiaeth o offer TGCh yn effeithlon i ddatrys problemau ac i gynhyrchu datrysiadau TGCh effeithiol. Maent yn trin ac yn prosesu data'n effeithlon ac yn effeithiol.

Maent yn modelu sefyllfaoedd yn effeithiol, yn rhoi cyfarwyddiadau yn eu trefn, yn dehongli gwybodaeth ac yn archwilio ac yn datblygu syniadau yn greadigol. Maent yn gweithio'n systematig ac yn deall ac yn mabwysiadu arferion diogel a chyfrifol. Maent yn dadansoddi problemau mewn ffordd systematig, gan adnabod anghenion a chyfleoedd.

Maent yn dadansoddi'n feirniadol ac yn gwerthuso'r ffyrdd y maent hwy ac eraill yn defnyddio TGCh. Maent yn adolygu eu gwaith yn iterus ac yn gwneud gwelliannau lle y bo'n briodol. Maent yn defnyddio TGCh i gyfathrebu'n effeithiol, gan ddangos synnwyr clir o bwrpas ac o'r gynulleidfa.

Gradd C

Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dethol ac yn cyfathrebu gwybodaeth a dealltwriaeth dda o TGCh, gan gynnwys effaith y defnydd cymdeithasol a masnachol ohoni.

Maent yn defnyddio gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, gan ddefnyddio offer TGCh yn briodol i fynd i'r afael â phroblemau ac i gynnig datrysiadau TGCh. Maent yn dethol gwybodaeth ac yn prosesu data.

Maent yn modelu sefyllfaoedd, yn rhoi cyfarwyddiadau yn eu trefn, yn dethol ac yn defnyddio gwybodaeth, ac yn archwilio syniadau. Maent yn gweithio gan ddefnyddio arferion saff, diogel a chyfrifol. Maent yn dadansoddi ffyrdd o fynd i'r afael ag anghenion gan ddefnyddio TGCh. Maent yn adolygu ac yn gwerthuso'r ffyrdd y maen nhw ac eraill yn defnyddio TGCh.

Maent yn adolygu eu gwaith ac yn gwneud gwelliannau lle y bo'n briodol. Maent yn defnyddio TGCh i gyfathrebu'n effeithiol, gan ddangos synnwyr clir o bwrpas ac o'r gynulleidfa.

Gradd E

Mae ymgeiswyr yn galw i gof, yn dethol ac yn cyfathrebu gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o TGCh, gan gynnwys y defnydd ohoni yn y byd ehangach.

Maent yn defnyddio gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau cyfyngedig i fynd i'r afael â phroblemau syml ac i greu datrysiadau sylfaenol gan ddefnyddio offer TGCh.

Maent yn dewis ac yn cyflwyno data a gwybodaeth, ac yn defnyddio modelau a chyfarwyddiadau syml. Maent yn dangos peth ymwybyddiaeth o'r angen am arferion saff, diogel a chyfrifol. Maent yn ymateb i anghenion gan ddefnyddio TGCh.

Maent weithiau'n adolygu ac yn rhoi sylwadau ar y ffordd y maen nhw ac eraill yn defnyddio TGCh. Maent yn gwneud addasiadau syml i'w gwaith yng ngoleuni'r cynnydd a wneir. Maent yn defnyddio TGCh i gyfathrebu, gan ddangos ymwybyddiaeth gyfyngedig o bwrpas a chynulleidfa.

Gradd G

Mae ymgeiswyr yn galw i gof, dewis a chyfleu gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o agweddau ar TGCh.

Maent yn cymhwyso peth gwybodaeth a sgiliau cyfyngedig i fynd i'r afael â phroblemau syml ac i greu datrysiadau cyfyngedig gan ddefnyddio offer TGCh.

Maent yn dewis ac yn cyflwyno data a gwybodaeth, gan ddefnyddio modelau a chyfarwyddiadau cyfyngedig. Nid oes ganddynt fawr o ymwybyddiaeth o'r angen am arferion saff, diogel a chyfrifol. Maent yn ymateb i anghenion gan ddefnyddio TGCh.

O dro i dro maent yn adolygu ac yn cynnig sylwadau ar y ffordd y maent yn defnyddio TGCh. Maent yn gwneud addasiadau cyfyngedig i'w gwaith yng ngoleuni'r cynnydd a wneir. Maent yn defnyddio TGCh i gyfathrebu.

TGAU Mathemateg a Mathemateg - Rhifedd

Darperir y disgrifiadau graddau canlynol er mwyn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyrhaeddiad y mae ymgeiswyr y dyfarnwyd graddau penodol iddynt yn debygol o fod wedi'u dangos. Rhaid dehongli'r disgrifiadau mewn perthynas â'r cynnwys penodol o'r fanyleb (yn ôl addasiad 2021, lle y bo'n briodol). Bydd y radd y mae'n fwyaf priodol ei dyfarnu yn dibynnu, yn ymarferol, ar faint y mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar y dystiolaeth gael eu cydbwysu â pherfformiad gwell mewn agweddau eraill.

Gradd A

Mae ymgeiswyr yn:

- galw i gof ac yn defnyddio amrediad eang o ffeithiau, technegau, terminoleg, diagramau, symbolau a chysyniadau mathemategol cymhleth yn gyson, yn briodol ac yn fanwl gywir,
- galw i gof ac yn defnyddio cyfuniad o ddulliau mathemategol safonol yn fanwl gywir,
- dilyn cyfarwyddiadau uniongyrchol i ddatrys problemau cymhleth yn cynnwys trefnau arferol.

Mae ymgeiswyr yn:

- dethol a defnyddio'r fathemateg a'r adnoddau sydd eu hangen i ddatrys problemau cymhleth,
- dethol a chymhwyso dulliau mathemategol yn systematig ac yn gywir i ddatrys amrediad o broblemau aml-gam ansafonol, anghyfarwydd neu anstrwythuredig,
- gwneud penderfyniadau wrth fynd i'r afael ag amrediad eang o dasgau penodol, er enghraifft, gan ddewis strategaeth i fynd i'r afael â phroblem trigonometrig aml-gam.

Mae ymgeiswyr yn:

- dyfeisio strategaethau i ddatrys problemau nad ydynt yn rhai arferol neu anghyfarwydd a osodir mewn amrediad o gyd-destunau, gan eu rhannu'n dasgau llai, mwy hylaw, lle bo angen,
- cyfathrebu'n fathemategol, gan ddefnyddio amrediad eang o iaith, nodiant a symbolau mathemategol i esbonio'r rhesymu ac i fynegi syniadau mathemategol yn ddiamwys,
- llunio dadleuon a phroffion sy'n argyhoeddi gan ddiddwytho'n rhesymegol,
- dehongli canfyddiadau neu ddatrysiadau yng nghyd-destun y broblem wreiddiol,
- defnyddio rhesymiaid a diddwythiadau rhesymegol sy'n deillio o wybodaeth fathemategol a dod i gasgliadau dilys,
- myfyrto ar ganlyniadau a gwerthuso'n feirniadol pa mor effeithiol ac effeithlon yw'r dulliau a ddefnyddir.

Gradd C

Mae ymgeiswyr yn:

- galw i gof ac yn defnyddio amrediad o ffeithiau mathemategol, technegau, terminoleg, diagramau, symbolau a chysyniadau yn gyson, yn briodol ac yn gywir,
- galw i gof ac yn defnyddio dulliau mathemategol safonol gyda rhywfaint o fanwl gywirdeb,
- dilyn cyfarwyddiadau uniongyrchol i ddatrys problemau'n cynnwys trefnau arferol.

Mae ymgeiswyr yn:

- dethol a defnyddio'r fathemateg a'r adnoddau sydd eu hangen i ddatrys problemau,
- dethol a defnyddio dulliau mathemategol i ddatrys problemau aml-gam, ansafonol neu anstrwythuredig,
- gwneud penderfyniadau wrth fynd i'r afael â thasgau penodol, er enghraifft, dewis dull addas o ddod o hyd i arwynebedd siâp cyfansawdd.

Mae ymgeiswyr yn:

- dyfeisio strategaethau i ddatrys problemau anarferol neu anghyfarwydd, gan eu rhannu'n dasgau llai, mwy hylaw, lle bo angen gwneud hynny,
- cyfathrebu'n fathemategol, gan ddefnyddio amrediad o iaith, nodiant a symbolau mathemategol i esbonio'r rhesymu ac i fynegi syniadau mathemategol yn glir,
- llunio dadleuon gan ddefnyddio diddwythiad rhesymegol,
- dehongli rhai canfyddiadau neu ddatrysiadau yng nghyd-destun y broblem wreiddiol,
- defnyddio rhesymiaidau a diddwythiadau sy'n cael eu gwneud o wybodaeth fathemategol a dod i gasgliadau,
- myfyrio ar ganlyniadau a rhoi sylwadau ar briodoldeb y dulliau a ddefnyddir.

Gradd E

Mae ymgeiswyr yn:

- galw i gof ac yn defnyddio ffeithiau, technegau, terminoleg, diagramau, symbolau a chysyniadau mathemategol sylfaenol,
- galw i gof a defnyddio dulliau mathemategol safonol,
- dilyn cyfarwyddiadau uniongyrchol i ddatrys problemau syml yn cynnwys trefnau arferol.

Mae ymgeiswyr yn:

- dethol a defnyddio'r fathemateg a'r adnoddau sydd eu hangen i ddatrys problemau syml,
- dethol a defnyddio dulliau mathemategol sylfaenol i ddatrys problemau aml-gam, ansafonol neu anstrwythuredig syml,
- gwneud penderfyniadau syml wrth ymdrin â thasgau safonol penodol, er enghraifft, dewis sut i arddangos gwybodaeth benodol.

Mae ymgeiswyr yn:

- cyfathrebu'n fathemategol, gan ddefnyddio iaith, nodiant a symbolau mathemategol i esbonio rhesymu ac i fynegi syniadau mathemategol gyda rhywfaint o eglurder,
- llunio dadleuon syml gan ddefnyddio diddwythiad rhesymegol,
- dehongli canfyddiadau neu ddatrysiadau syml yng nghyd-destun y broblem wreiddiol,
- defnyddio diddwythiadau syml a wneir o wybodaeth fathemategol i ddod i gasgliadau sylfaenol,
- myfyrio ar ganlyniadau a gwirio eu cywirdeb a'u rhesymoldeb.

Gradd G

Mae ymgeiswyr yn:

- galw i gof ac yn defnyddio rhai ffeithiau, technegau, terminoleg, diagramau, symbolau a chysyniadau mathemategol sylfaenol,
- galw i gof ac yn defnyddio rhai dulliau mathemategol safonol syml,
- dilyn cyfarwyddiadau uniongyrchol i ddatrys problemau syml yn cynnwys trefnau arferol.

Mae ymgeiswyr yn:

- dethol a defnyddio'r fathemateg a'r adnoddau sydd eu hangen i ddatrys rhai problemau syml,
- dethol ac yn cymhwyso rhai dulliau mathemategol sylfaenol i ddatrys problemau aml-gam syml,
- gwneud rhai penderfyniadau syml wrth ymdrin â thasgau safonol penodol, er enghraifft, dewis sut i arddangos gwybodaeth benodol.

Mae ymgeiswyr yn:

- cyfathrebu'n fathemategol, gan ddefnyddio rhywfaint o iaith, nodiant a symbolau mathemategol sylfaenol i esbonio rhesymu ac i fynegi rhai syniadau mathemategol syml,
- dehongli rhai canfyddiadau neu ddatrysiadau syml yng nghyd-destun y broblem wreiddiol,
- defnyddio rhai diddwythiadau syml sy'n cael eu gwneud o wybodaeth fathemategol a dod i gasgliadau sylfaenol.

TGAU ITM – Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg

Darperir y disgrifiadau graddau canlynol er mwyn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyrhaeddiad y mae ymgeiswyr y dyfarnwyd graddau penodol iddynt yn debygol o fod wedi'u dangos. Rhaid dehongli'r disgrifiadau mewn perthynas â'r cynnwys penodol o'r fanyleb (yn ôl addasiad 2021, lle y bo'n briodol). Bydd y radd y mae'n fwyaf priodol ei dyfarnu yn dibynnu, yn ymarferol, ar faint y mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar y dystiolaeth gael eu cydbwysu â pherfformiad gwell mewn agweddau eraill.

Gradd A

AA1: Gwranddo

Mae ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth dda iawn o amrywiaeth o iaith lafar sy'n cynnwys rhywfaint o iaith gymhleth ac sy'n ymwneud ag amrediad o gyd-destunau gan gynnwys darnau estynedig. Gallant adnabod neges gyffredinol darn, y prif bwyntiau, y manylion a'r safbwyntiau. Gallant dynnu ystyr, gwerthuso a dod i gasgliadau. Gallant ymateb i gwestiynau yn iaith yr asesiad.

AA2: Siarad

Byddant yn cychwyn ac yn datblygu sgysiau a thrafodaethau, yn cyflwyno gwybodaeth ac yn adrodd digwyddiadau. Byddant yn mynegi ac yn esbonio syniadau a safbwyntiau, ac yn cynhyrchu dilyniannau estynedig o leferydd yn gyson gan ddefnyddio amrywiaeth eang o eirfa a strwythurau. Maent yn cyfeirio at gyfnodau amser gwahanol. Maent yn rhyngweithio'n hyderus, gydag ynganiad a thonyddiaeth gywir ar y cyfan. Mae'r neges bob amser yn glir ond efallai y bydd rhai gwallau, yn enwedig pan fyddant yn defnyddio strwythurau mwy cymhleth.

AA3: Darllen

Maent yn dangos dealltwriaeth dda iawn o amrywiaeth o destunau ysgrifenedig sy'n ymwneud ag amrediad o gyd-destunau. Maent yn deall rhywfaint o iaith anghyfarwydd ac yn tynnu ystyr o iaith fwy cymhleth a thestunau estynedig. Gallant nodi neges gyffredinol testun, y prif bwyntiau, y manylion a'r safbwyntiau. Gallant ddod i gasgliadau a chydabod ystyr ymhlyg. Gallant ymateb i gwestiynau yn iaith yr asesiad.

AA4: Ysgrifennu

Byddant yn ysgrifennu at wahanol ddibenion ar draws ystod o gyd-destunau. Maent yn mynegi ac yn cyfiawnhau syniadau a safbwyntiau. Maen nhw'n defnyddio amrywiaeth o eirfa, strwythurau, gan gynnwys strwythurau cymhleth, ac yn cyfeirio at gyfnodau amser gwahanol. Mae eu sillafu a'u gramadeg yn gywir ar y cyfan. Mae'r negeseuon yn glir ac yn gydlynol ond efallai y bydd rhai gwallau, yn enwedig pan fyddant yn defnyddio strwythurau mwy cymhleth.

Gradd C

AA1: Gwranddo

Mae ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth o wahanol fathau o iaith lafar sy'n cynnwys amrywiaeth o strwythurau. Mae'r deunydd llafar yn ymwneud ag ystod o gyd-destunau, gan gynnwys rhai darnau estynedig. Gallant nodi rhai prif bwyntiau, manylion a barn. Gallant dynnu rhywfaint o ystyr, gwerthuso rhywfaint o wybodaeth a dod i rai casgliadau. Gallant ymateb i rai cwestiynau yn iaith yr asesiad.

AA2: Siarad

Maen nhw'n cymryd rhan mewn sgysiau a thrafodaethau syml ac yn cyflwyno gwybodaeth berthnasol, ar adegau'n fanwl. Maent yn mynegi safbwyntiau ac yn dangos eu bod yn gallu ymdrin â rhai elfennau nad oedd modd eu rhagweld. Mae eu hiaith lafar yn cynnwys amrywiaeth o eirfa a strwythurau syml a gall ymwneud â digwyddiadau yn y gorffennol a'r dyfodol. Mae rhywfaint o ddigymell gydag ynganiad a goslef da ar y cyfan. Mae'r neges yn un glir, ond gall fod rhai gwallau.

AA3: Darllen

Byddant yn dangos dealltwriaeth o wahanol fathau o destunau ysgrifenedig sy'n cynnwys amrywiaeth o strwythurau, gan gynnwys rhai sy'n gymhleth. Mae'r deunydd ysgrifenedig yn ymwneud ag ystod o gyd-destunau, gan gynnwys rhai a all fod yn anghyfarwydd. Gallant nodi rhai prif bwyntiau, manylion a rhai safbwyntiau. Gallant dynnu rhai casgliadau a chydabod rhyw ystyr ymhlyg. Gallant ymateb i rai cwestiynau yn iaith yr asesiad.

AA4: Ysgrifennu

Byddant yn ysgrifennu at wahanol ddibenion o fewn gwahanol gyd-destunau. Maent yn mynegi syniadau a safbwyntiau. Maen nhw'n defnyddio amrywiaeth o eirfa a strwythurau a gallent gynnwys cyfnodau amser gwahanol. Mae eu sillafu a'u gramadeg yn weddol gywir. Mae'r neges yn un glir ac yn eithaf cywir.

Gradd E

AA1: Gwranddo

Mae ymgeiswyr yn dangos peth dealltwriaeth o iaith lafar syml mewn dyfyniadau byrrach sy'n ymwneud â chyd-destunau cyfarwydd yn bennaf. Gallant nodi rhai prif bwyntiau a thynnu rhai manylion. O dro i dro gallant ymateb i gwestiynau yn iaith yr asesiad.

AA2: Siarad

Maen nhw'n cymryd rhan mewn sgysiau syml, yn cyflwyno gwybodaeth syml ac yn gallu mynegi eu barn. Maen nhw'n defnyddio amrywiaeth o iaith syml, ar ffurf ymatebion byr fel arfer. Maent yn ynganu'n ddealladwy ar y cyfan.

Mae'r prif bwyntiau fel arfer yn cael eu cyfleu, er gwaethaf gwallau gramadegol.

AA3: Darllen

Byddant yn dangos peth dealltwriaeth o destunau ysgrifenedig byr, syml sy'n ymwneud â chyd-destunau cyfarwydd yn bennaf. Gallant nodi rhai prif bwyntiau a thynnu rhai manylion. O dro i dro gallant ymateb i gwestiynau yn iaith yr asesiad.

AA4: Ysgrifennu

Maent yn ysgrifennu testunau byr sy'n ymwneud â chyd-destunau cyfarwydd yn bennaf. Gallant fynegi barn syml. Maent yn defnyddio amrediad syml o eirfa a strwythurau. Mae'r prif bwyntiau fel arfer yn cael eu cyfleu ond mae camgymeriadau yn y sillafu a'r ramadeg.

Gradd G

AA1: Gwranddo

Mae ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth gyfyngedig iawn o iaith lafar sylfaenol mewn darnau byrrach sy'n ymwneud â chyd-destunau cyfarwydd. Gallant adnabod prif bwyntiau a manylion o bryd i'w gilydd.

AA2: Siarad

Maen nhw'n cymryd rhan mewn sgysiau syml gan ymateb yn fyr i rai cwestiynau. Byddant yn defnyddio amrediad cyfyngedig o eirfa a strwythurau gramadegol, efallai dim ond ymadroddion. Mae'n bosibl deall eu hynganiad weithiau, ond gall diffygion, ynghyd ag anghywirdebau gramadegol, rwystro cyfathrebu.

AA3: Darllen

Maent yn dangos dealltwriaeth gyfyngedig iawn o destunau ysgrifenedig byr, sylfaenol sy'n ymwneud â chyd-destunau cyfarwydd. Gallant nodi prif bwyntiau a manylion o bryd i'w gilydd.

AA4: Ysgrifennu

Byddant yn ysgrifennu testunau byr iawn sy'n ymwneud â chyd-destunau cyfarwydd. Gallant fynegi barn syml. Mae amrediad eu geirfa a strwythurau yn gyfyngedig. Mae'r prif bwyntiau'n cael eu cyfleu weithiau ond mae camgymeriadau mynych mewn sillafu a gramadeg a allai rwystro cyfathrebu.

TGAU Astudio'r Cyfryngau

Darperir y disgrifiadau graddau canlynol er mwyn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyrhaeddiad y mae ymgeiswyr y dyfarnwyd graddau penodol iddynt yn debygol o fod wedi'u dangos. Rhaid dehongli'r disgrifiadau mewn perthynas â'r cynnwys penodol o'r fanyleb (yn ôl addasiad 2021, lle y bo'n briodol). Bydd y radd y mae'n fwyaf priodol ei dyfarnu yn dibynnu, yn ymarferol, ar faint y mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar y dystiolaeth gael eu cydbwyso â pherfformiad gwell mewn agweddau eraill.

Gradd A

Bydd ymgeiswyr yn nodweddiadol yn:

- dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gywir a manwl o iaith y cyfryngau
- dadansoddi'n graff sut mae cynhyrchion y cyfryngau yn llunio sylwadau
- dangos gafael hyderus ar gysyniad y gynulleidfa
- dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ragorol o ddiwydiannau'r cyfryngau
- cyfleu eu syniadau'n glir drwy ddefnyddio terminoleg pwnc-benodol yn briodol
- datblygu a chreu cynhyrchion y cyfryngau effeithiol sy'n cynnwys iaith a chynrychioliadau cyfryngau priodol iawn ac sydd ag ymdeimlad clir o gyd-destun cynulleidfaoedd a diwydiant
- arddangos sgiliau creadigol a thechnegol hyderus.

Gradd C

Bydd ymgeiswyr yn nodweddiadol yn:

- dangos gwybodaeth a dealltwriaeth foddhaol o iaith y cyfryngau
- darparu dadansoddiad boddhaol o sut mae cynhyrchion y cyfryngau yn llunio cynrychioliadau
- dangos gafael briodol a chywir ar gysyniad cynulleidfa
- dangos gwybodaeth a dealltwriaeth foddhaol o ddiwydiannau'r cyfryngau
- cyfleu eu syniadau gan ddefnyddio rhywfaint o derminoleg pwnc-benodol
- datblygu a chreu cynhyrchion y cyfryngau sy'n cynnwys defnydd boddhaol o iaith a chynrychioliadau'r cyfryngau ac sy'n dangos dealltwriaeth foddhaol o gynulleidfa a diwydiant.

Gradd E

Bydd ymgeiswyr yn nodweddiadol yn:

- dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o iaith y cyfryngau
- darparu dadansoddiad sylfaenol o sut mae cynhyrchion y cyfryngau yn llunio cynrychioliadau
- dangos gafael sylfaenol ar gysyniad y gynulleidfa
- dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ddiwydiannau'r cyfryngau
- cyfleu eu syniadau gan ddefnyddio terminoleg pwnc-benodol achlysurol
- datblygu a chreu cynhyrchion y cyfryngau sy'n dangos defnydd sylfaenol o iaith a chynrychioliadau'r cyfryngau, gan ddangos dealltwriaeth sylfaenol o gynulleidfa a/neu ddiwydiant.

Gradd G

Bydd ymgeiswyr yn nodweddiadol yn:

- dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig neu amhriodol o iaith y cyfryngau
- darparu dadansoddiad cyfyngedig neu amhriodol o sut mae cynhyrchion y cyfryngau yn llunio cynrychioliadau
- dangos gafael gyfyngedig neu anghywir ar gysyniad y gynulleidfa
- dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig neu gyfyngedig iawn o ddiwydiannau'r cyfryngau
- cyfleu eu syniadau gan ddefnyddio terminoleg gyfyngedig iawn neu ddim terminoleg pwnc-benodol
- datblygu a chreu cynhyrchion y cyfryngau sy'n dangos defnydd cyfyngedig o iaith a chynrychioliadau'r cyfryngau a/neu sy'n dangos dealltwriaeth gyfyngedig o gynulleidfa a/neu ddiwydiant.

TGAU Cerddoriaeth

Darperir y disgrifiadau graddau canlynol er mwyn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyrhaeddiad y mae ymgeiswyr y dyfarnwyd graddau penodol iddynt yn debygol o fod wedi'u dangos. Rhaid dehongli'r disgrifiadau hyn o ran y cynnwys a nodir gan y fanyleb (ac unrhyw addasiad ar gyfer 2021, lle y bo'n briodol). Bydd y radd y mae'n fwyaf priodol ei dyfarnu yn dibynnu, yn ymarferol, ar faint y mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar y dystiolaeth gael eu cydbwysu â pherfformiad gwell mewn agweddau eraill.

Gradd A

Mae ymgeiswyr yn perfformio'n gywir ac yn llawn mynegiant, gyda thechneg a thonyddiaeth ddiogel, gan gyfleu'r arddull a ddewisir i'r gynulleidfa yn effeithiol, gan sicrhau ymdeimlad da o gydbwysedd â pherfformwyr eraill. (Mae'r lefel safonol o berfformio yn gyfwerth i Radd 3.)

Maent yn cyfansoddi darnau o gerddoriaeth sydd wedi'u trefnu'n dda iawn gyda syniadau effeithiol iawn sy'n cael eu datblygu'n greadigol gan ddefnyddio dewis effeithiol o elfennau a reolir yn fedrus. Mae'r ymateb i'r briff o'u dewis yn dda iawn ac mae'r canlyniad terfynol yn un hynod effeithiol.

Maent yn gwneud arsylwadau manwl ac yn feirniadol wrth ffurfio barn am eu cerddoriaeth eu hunain a cherddoriaeth pobl eraill. Mae ganddynt wybodaeth ddiogel am elfennau cerddoriaeth a sut y cânt eu defnyddio, y maent yn eu disgrifio gan ddefnyddio geirfa gerddorol gywir sy'n briodol i'r lefel hon. (Gweler y rhestr o dermau yn y fanyleb.)

Gradd C

Mae ymgeiswyr yn perfformio'n gywir ar y cyfan ond mae llithriadau achlysurol. Yn gyffredinol, mae techneg a goslef yn ddibynadwy, ac mae perfformiadau'n fynegiannol ar y cyfan ac yn cyd-fynd â'r arddull a ddewisir gydag ymdeimlad o gydbwysedd â pherfformwyr eraill. (Mae'r lefel safonol o berfformio yn gyfwerth i Radd 3.)

Maent yn cyfansoddi darnau o gerddoriaeth sydd wedi'u trefnu'n dda gyda syniadau effeithiol ar y cyfan a defnydd o elfennau sydd wedi'u datblygu'n fedrus. Mae'r ymateb i'r briff o'u dewis yn dda ac mae'r canlyniad terfynol yn un effeithiol ar y cyfan.

Byddant yn gwneud arsylwadau a rhai barn feirniadol am eu cerddoriaeth eu hunain a cherddoriaeth pobl eraill. Mae ganddynt wybodaeth dda am elfennau cerddoriaeth a sut y cânt eu defnyddio, y maent yn eu disgrifio gan ddefnyddio rhywfaint o eirfa gerddorol sy'n briodol i'r lefel hon. (Gweler y rhestr o dermau yn y fanyleb.)

Gradd E

Mae perfformiadau ymgeiswyr yn dangos rhywfaint o reolaeth gyfyngedig, rhuglder a mynegiant ond mae gwallau, ac mae'r canlyniad yn anghyson. Mae'r gydberthynas ag eraill yn gyfyngedig. (Mae'r lefel safonol o berfformio yn gyfwerth i Radd 3.)

Maent yn cyfansoddi darnau syml o gerddoriaeth lle mae'r syniadau wedi'u datblygu'n rhannol gan ddefnyddio rhai dewisiadau effeithiol o elfennau ac adnoddau. Mae eu hymateb i'w briff dewisol yn anghyson â rhyw ymdeimlad o gydlyniad yn unig.

Maent yn gwneud arsylwadau sylfaenol am gerddoriaeth gan ddangos ychydig o wybodaeth am elfennau cerddoriaeth a sut y cânt eu defnyddio. Mae'r ymatebion yn anghyson ac nid oes ganddynt fanylion priodol, dim ond weithiau gan ddefnyddio geirfa gerddorol sy'n briodol i'r lefel hon. (Gweler y rhestr o dermau yn y fanyleb.)

Gradd G

Nid oes cywirdeb a rhuglder i berfformiadau ymgeiswyr ac maent wedi'u cyfyngu oherwydd techneg gyfyngedig, nad yw'n aml yn caniatáu ar gyfer cydberthynas rhwng perfformwyr. (Mae'r lefel safonol o berfformio yn gyfwerth i Radd 3.)

Maent yn cyfansoddi darnau sylfaenol iawn o gerddoriaeth lle nad oes llawer o gyfle i ddatblygu syniadau. Mae'r canlyniad yn gyfyngedig o ran rheolaeth ac o ran trefnu a chyflwyno syniadau heb fawr o ymdeimlad o gydlyniad.

Maent yn gwneud arsylwadau cyfyngedig am gerddoriaeth, gan ddangos peth gwybodaeth weithiau am elfennau cerddoriaeth a defnydd syml ac anghywir o eirfa gerddorol ar adegau.

TGAU Addysg Gorfforol Gradd Unigol a Chwrs Byr

Darperir y disgrifiadau graddau canlynol er mwyn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyrhaeddiad y mae ymgeiswyr y dyfarnwyd graddau penodol iddynt yn debygol o fod wedi'u dangos. Rhaid dehongli'r disgrifiadau hyn o ran y cynnwys a nodir gan y fanyleb (ac unrhyw addasiad ar gyfer 2021, lle y bo'n briodol). Bydd y radd y mae'n fwyaf priodol ei dyfarnu yn dibynnu, yn ymarferol, ar faint y mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar y dystiolaeth gael eu cydbwysu â pherfformiad gwell mewn agweddau eraill.

Gradd A

Mae ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o'r ffactorau sy'n sail i berfformiad. Gallant gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol o amrediad eang o ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad a chyfranogiad mewn gweithgaredd corfforol a chwaraeon. Gallant gymhwyso eu gwybodaeth at amrediad eang o gyd-destunau.

Gall ymgeiswyr ddadansoddi a gwerthuso amrediad eang o ffactorau sy'n sail i berfformiad a chymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol a chwaraeon yn feirniadol. Gallant ffurfio dadleuon rhesymegol a dod i gasgliadau rhesymegol gan ddefnyddio terminoleg arbenigol gywir.

Gall ymgeiswyr gymhwyso amrediad eang o sgiliau a thechnegau, strategaethau a/neu syniadau cyfansoddiadol priodol yn effeithiol gan ddangos perfformiad cyson trachywir a rhugl.

Gradd C

Mae ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n gywir ar y cyfan o'r ffactorau sy'n sail i berfformiad. Gallant gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol o rai ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad a chyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol a chwaraeon. Gallant gymhwyso eu gwybodaeth at amrediad o gyd-destunau.

Mae ymgeiswyr yn dangos rhywfaint o ddadansoddi a gwerthuso ystod o ffactorau sy'n sail i berfformiad a chyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol a chwaraeon. Gallant wneud dadleuon rhesymegol yn bennaf, er y gallant fod yn unochrog. Maent yn dod i rai casgliadau cytbwys gan wneud defnydd rhesymol o derminoleg arbenigol.

Gall ymgeiswyr gymhwyso ystod o sgiliau a thechnegau, strategaethau a/neu syniadau cyfansoddiadol priodol yn effeithiol. Maent yn dangos rhywfaint o berfformiad manwl a rhugl, ond nid bob amser yn gyson.

Gradd E

Mae ymgeiswyr yn dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n sail i berfformiad. Maent yn dangos defnydd cyfyngedig o wybodaeth a dealltwriaeth berthnasol o ychydig ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad a chymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol a chwaraeon. Gallant gymhwyso eu gwybodaeth at amrediad cyfyngedig o gyd-destunau.

Mae ymgeiswyr yn dangos dadansoddiad a gwerthusiad cyfyngedig o rai ffactorau sy'n sail i berfformiad a chyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol a chwaraeon. Gallant ddadlau mewn ffordd sydd ar y cyfan yn arwynebol ac yn unochrog. Prin yw'r casgliadau cytbwys ganddynt a chyfyngedig yw eu defnydd o derminoleg arbenigol ganddynt.

Gall ymgeiswyr gymhwyso amrediad cyfyngedig o sgiliau a thechnegau, strategaethau a/neu syniadau cyfansoddiadol priodol. Mae eu perfformiad yn dangos manylder, rhuglder a chysondeb cyfyngedig.

Gradd G

Mae ymgeiswyr yn dangos fawr o wybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n sail i berfformiad. Nid ydynt yn dangos llawer o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol o ychydig iawn o ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad a chymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol a chwaraeon. Prin yw'r defnydd o'u gwybodaeth at ychydig iawn o gyd-destunau.

Mae ymgeiswyr yn dangos fawr ddim neu ddim dadansoddi a gwerthuso ychydig o ffactorau sy'n sail i berfformiad a chymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol a chwaraeon. Nid ydynt yn dod i lawer o gasgliadau, os o gwbl, ac nid ydynt yn gwneud fawr ddim defnydd o derminoleg arbenigol, os o gwbl.

Ychydig o sgiliau a thechnegau, strategaethau a/neu syniadau cyfansoddiadol priodol y gall ymgeiswyr eu cymhwyso. Nid yw eu perfformiad yn dangos llawer o drachywiredd, rhuglder a chysondeb.

Astudiaethau Crefyddol²

Darperir y disgrifiadau graddau canlynol er mwyn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyrhaeddiad y mae ymgeiswyr y dyfarnwyd graddau penodol iddynt yn debygol o fod wedi'u dangos. Rhaid dehongli'r disgrifiadau hyn o ran y cynnwys a nodir gan y fanyleb (ac unrhyw addasiad ar gyfer 2021, lle y bo'n briodol). Bydd y radd y mae'n fwyaf priodol ei dyfarnu yn dibynnu, yn ymarferol, ar faint y mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar y dystiolaeth gael eu cydbwysu â pherfformiad gwell mewn agweddau eraill.

Gradd A

AA1 – Yn nodweddiadol mae ymgeiswyr yn:

- a) dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda a manwl iawn o amrediad eang o gredoau ac arferion
- b) cynnwys iaith grefyddol gywir a phriodol
- c) defnyddio cyfeiriadau'n hyderus at ffynonellau doethineb ac awdurdod, lle bo'n berthnasol
- ch) dangos dealltwriaeth dda a manwl iawn o safbwyntiau ac arferion cyffredin a gwahanol o fewn a rhwng crefyddau a chredoau.

AA2 – Yn nodweddiadol mae ymgeiswyr yn:

- a) llunio dadl dda, fanwl ac argyhoeddiadol iawn ar faterion crefydd a chredoau yn seiliedig ar ddadansoddi beirniadol a gwerthuso gwahanol safbwyntiau
- b) cynnwys iaith grefyddol gywir a phriodol
- c) defnyddio cyfeiriadau'n hyderus at ffynonellau doethineb ac awdurdod, lle bo hynny'n berthnasol.

Gradd C

AA1 – Yn nodweddiadol mae ymgeiswyr yn:

- a) dangos gwybodaeth a dealltwriaeth foddhaol o ystod o gredoau ac arferion
- b) cynnwys rhywfaint o iaith grefyddol gywir
- c) a/neu gynnwys rhai ffynonellau doethineb ac awdurdod cywir, lle bo'n briodol
- ch) dangos dealltwriaeth foddhaol o safbwyntiau ac arferion cyffredin a gwahanol o fewn a rhwng crefyddau neu gredoau.

AA2 – Yn nodweddiadol mae ymgeiswyr yn:

- a) llunio safbwynt boddhaol, rhesymegol ar faterion crefydd neu gred yn seiliedig ar rywfaint o ddadansoddi a gwerthuso gwahanol safbwyntiau
- b) cynnwys rhywfaint o iaith grefyddol gywir a pherthnasol
- c) a/neu gynnwys rhai ffynonellau perthnasol o ddoethineb ac awdurdod.

² Yn cynnwys Astudiaethau Crefyddol (Cwrs Byr); Astudiaethau Crefyddol; Astudiaethau Crefyddol (Diwinyddiaeth Gatholig ac Iddewiaeth).

Gradd E

AA1 – Yn nodweddiadol mae ymgeiswyr yn:

- a) dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol, berthnasol o rai credoau ac arferion
- b) cynnwys lefel sylfaenol o iaith grefyddol
- c) a/neu gynnwys rhai cyfeiriadau sylfaenol at ffynonellau doethineb ac awdurdod, lle bo hynny'n berthnasol
- ch) dangos dealltwriaeth sylfaenol o safbwyntiau ac arferion tebyg a gwahanol o fewn a rhwng crefyddau neu gredoau.

AA2 – Yn nodweddiadol mae ymgeiswyr yn:

- a) mynegi barn ar faterion crefydd neu gred, gan gydnabod y gallai fod gan eraill safbwyntiau gwahanol
- b) cynnwys lefel sylfaenol o iaith grefyddol
- c) a/neu gynnwys rhai cyfeiriadau sylfaenol at ffynonellau doethineb ac awdurdod, lle bo hynny'n berthnasol.

Gradd G

AA1 – Yn nodweddiadol mae ymgeiswyr yn:

- a) offer gwybodaeth a dealltwriaeth wan iawn o gredoau ac arferion
- b) defnyddio iaith grefyddol yn anaml iawn a/neu'n amhriddol
- c) a/neu roi enghreifftiau ynysig, neu enghreifftiau amherthnasol, o ffynonellau doethineb ac awdurdod.
- ch) rhoi enghreifftiau ynysig o ddealltwriaeth wan iawn, neu ddealltwriaeth ddryslyd iawn, o safbwyntiau ac arferion tebyg neu wahanol rhwng crefyddau neu gredoau.

AA2 – Yn nodweddiadol mae ymgeiswyr yn:

- a) offer enghreifftiau ynysig o ddadansoddi a gwerthuso gwan iawn ac ymgais wan, neu ddim ymgais, i roi safbwyntiau gwahanol
- b) cynnwys defnydd gwael iawn, neu ddim defnydd, o iaith grefyddol
- c) a/neu gynnwys defnydd gwael iawn, neu ddim defnydd, o ffynonellau doethineb ac awdurdod.

TGAU Gwyddoniaeth (pob cymhwyster gwyddoniaeth³)

Darperir y disgrifiadau graddau canlynol er mwyn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyrhaeddiad y mae ymgeiswyr y dyfarnwyd graddau penodol iddynt yn debygol o fod wedi'u dangos. Rhaid dehongli'r disgrifiadau hyn o ran y cynnwys a nodir gan y fanyleb (ac unrhyw addasiad ar gyfer 2021, lle y bo'n briodol). Bydd y radd y mae'n fwyaf priodol ei dyfarnu yn dibynnu, yn ymarferol, ar faint y mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar y dystiolaeth gael eu cydbwysu â pherfformiad gwell mewn agweddau eraill.

Gradd A

Mae'r ymgeisydd yn:

Dangos gwybodaeth fanwl gywir a dealltwriaeth fanwl o rai o'r syniadau, prosesau, technegau a gweithdrefnau gwyddonol mwy cymhleth.

Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o syniadau, prosesau, technegau, gweithdrefnau a sgiliau mathemategol gwyddonol yn gyson mewn amrediad eang o gyd-destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd.

Dadansoddi, yn dehongli ac yn gwerthuso gwybodaeth, syniadau a thystiolaeth wyddonol, gan gynnwys gwneud hynny mewn perthynas a materion, i lunio barn resymegol a dod i gasgliadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Gradd C

Mae'r ymgeisydd yn:

Dangos gwybodaeth dda a dealltwriaeth sylfaenol o amrediad o'r syniadau, prosesau, technegau a gweithdrefnau gwyddonol.

Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o syniadau, prosesau, technegau, gweithdrefnau a sgiliau mathemategol gwyddonol mewn amrediad o gyd-destunau cyfarwydd.

Dadansoddi, yn dehongli ac yn gwerthuso gwybodaeth, syniadau a thystiolaeth wyddonol, gan gynnwys gwneud hynny mewn perthynas a materion, i lunio barn synhwyrol a dod i gasgliadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ystyried cyd-destunau syml neu gyfarwydd.

³ Yn cynnwys cymwysterau Gwyddoniaeth Gymhwysol; Bioleg; Cemeg; Ffiseg a Gwyddoniaeth.

Gradd E

Mae'r ymgeisydd yn:

Dangos gwybodaeth sylfaenol am rai syniadau, prosesau, technegau a gweithdrefnau gwyddonol allweddol.

Cymhwyso gwybodaeth sylfaenol am nifer o syniadau, prosesau, technegau a gweithdrefnau gwyddonol allweddol, a sgiliau mathemategol sylfaenol, mewn cyd-destunau syml a chyfarwydd.

Dadansoddi, yn dehongli ac yn gwerthuso gwybodaeth a thystiolaeth wyddonol i ddod i gasgliadau synhwyrol.

Gradd G

Mae'r ymgeisydd yn:

Dangos gwybodaeth sylfaenol iawn am rai syniadau, prosesau, technegau a gweithdrefnau gwyddonol.

Cymhwyso gwybodaeth sylfaenol iawn am syniadau, prosesau, technegau a gweithdrefnau gwyddonol, mewn cyd-destunau syml a chyfarwydd iawn.

Dadansoddi gwybodaeth wyddonol a thystiolaeth i ddod i gasgliadau syml iawn.

TGAU Cymraeg Ail Iaith

Darperir y disgrifiadau graddau canlynol er mwyn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyrhaeddiad y mae ymgeiswyr y dyfarnwyd graddau penodol iddynt yn debygol o fod wedi'u dangos. Rhaid dehongli'r disgrifiadau hyn o ran y cynnwys a nodir gan y fanyleb (ac unrhyw addasiad ar gyfer 2021, lle y bo'n briodol). Bydd y radd y mae'n fwyaf priodol ei dyfarnu yn dibynnu, yn ymarferol, ar faint y mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar y dystiolaeth gael eu cydbwysu â pherfformiad gwell mewn agweddau eraill.

Gradd A

AA1: Siarad

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddangos gallu cynyddol i gyfathrebu'r iaith lafar mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd drwy gyfathrebu a rhyngweithio'n hyderus ac yn ddigymell ag eraill y rhan fwyaf o'r amser.

Disgwylir iddynt fynegi a chyfiawnhau barn yn llawn, ymhelaethu ar resymau ac ymateb yn fanwl i syniadau pobl eraill tra'n cyfathrebu ac yn rhyngweithio'n hyderus ac yn ddigymell. Mae'n ofynnol iddynt ddefnyddio amrediad eang o batrymau iaith yn gywir iawn ac amrediad o wahanol amserau ynghyd â naws briodol, ynganu cywir a goslef clir.

AA2: Gwranddo

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth gynyddol o iaith lafar mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd drwy gyfathrebu a rhyngweithio'n hyderus ac yn ddigymell ag eraill y rhan fwyaf o'r amser.

Disgwylir iddynt ddangos eu bod yn gallu ymateb yn hyderus i symbyliad, gwranddo ac ymateb yn hyderus i gyfraniadau perthnasol gan eraill a deall yn llawn y brif neges gan gynnwys manylion penodol sy'n cael eu cyfleu ar lafar drwy roi cyfraniadau craff.

AA3: Darllen

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddarllen a deall amrywiaeth eang o ddeunyddiau priodol gan gynnwys rhai darnau cymhleth ac ymateb i ddeunydd heriol drwy ategu eu harsylwadau gan gyfeirio at y testun. Disgwylir iddynt ddefnyddio eu sgiliau darllen i ddewis a chymhwyso gwybodaeth i gyflawni amrywiol dasgau ar bynciau o fewn amrediad eu profiad sy'n cwmpasu'r tair thema gyffredinol.

AA4: Ysgrifennu

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ysgrifennu amrywiaeth o ddarnau ysgrifennu naratif, penodol, cyfarwyddiadol, disgrifiadol, creadigol a dychmygus yn effeithiol, drwy gynhyrchu gwaith cydlynol a threfnus. Disgwylir iddynt gyfleu gwybodaeth a mynegi barn yn hyderus ar faterion perthnasol a chadarnhau safbwyntiau gydag amrediad eang o syniadau a barn, rhesymau ac enghreifftiau. Mae angen iddynt greu gwaith ymgysylltiol sy'n creu hwyliau ac awyrgylch priodol. Er mwyn cyfathrebu'n hyderus iawn ag elfen gref o gywirdeb mae angen iddynt ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir a chyflwyno sillafu ac atalnodi cywir.

Gradd C

AA1: Siarad

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddangos gallu cynyddol i gyfathrebu'r iaith lafar mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd drwy gyfathrebu a rhyngweithio'n hyderus ag eraill. Disgwylir iddynt fynegi a chyfiawnhau barn yn eithaf llawn, rhoi rhesymau ac ymateb i syniadau pobl eraill tra'n cyfathrebu ac yn rhyngweithio ag ychydig o ddigymell a hyder. Mae'n ofynnol iddynt ddefnyddio patrymau iaith yn gywir a rhywfaint o amrywiad o ran amser ynghyd â nawws briodol, ynganu gweddol gywir a goslef eithaf clir.

AA2: Gwranddo

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth gynyddol o iaith lafar mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd drwy gyfathrebu a rhyngweithio'n hyderus ag eraill. Disgwylir iddynt ddangos eu bod yn gallu ymateb yn hyderus i symbyliad, gwranddo ac ymateb i gyfraniadau perthnasol gan eraill a gwranddo ar, a deall, y brif neges a manylion penodol sy'n cael eu cyfleu ar lafar yn fanwl.

AA3: Darllen

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddarllen a deall detholiad o ddeunyddiau priodol ac ymateb i wahanol ddeunyddiau, gan ategu eu hesboniadau gan gyfeirio at y testun. Disgwylir iddynt ddewis a chymhwyso gwybodaeth berthnasol o lawer o ffynonellau er mwyn cyflawni tasgau penodol sy'n cwmpasu'r tair thema gyffredinol.

AA4: Ysgrifennu

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ysgrifennu amrywiaeth o ddarnau ysgrifennu naratif, penodol, cyfarwyddiadol, disgrifiadol, creadigol a dychmygus yn weddol effeithiol, drwy gynhyrchu tystiolaeth o gynllunio a gwaith darllenadwy wedi'i drefnu'n dda. Disgwylir iddynt gyfleu gwybodaeth, mynegi barn ar faterion perthnasol a chadarnhau safbwyntiau gyda digon o syniadau a barn, rhesymau ac enghreifftiau. Er mwyn cyfathrebu mae angen iddynt ddefnyddio amrywiaeth o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol, ffurfiau berfol (amser a pherson) a sillafu ac atalnodi gyda chryn gywirdeb.

Gradd E

AA1: Siarad

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddangos y gallu i gyfathrebu'r iaith lafar mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd drwy gyfathrebu a rhyngweithio ag ychydig o anogaeth gan roi rhywfaint o wybodaeth. Disgwylir iddynt fynegi a chyfiawnhau rhywfaint o farn, rhoi ymatebion syml iawn i wahanol fathau o iaith lafar a siaredir gan un neu fwy o siaradwyr a chyfathrebu a rhyngweithio ag ychydig o anogaeth. Mae'n ofynnol iddynt ddefnyddio patrymau iaith syml yn gywir ac amrywiad achlysurol o amser. Maent yn ynganu'r rhan fwyaf o eiriau'n gywir.

AA2: Gwranddo

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth o iaith lafar mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd drwy gyfathrebu a rhyngweithio ag ychydig o anogaeth gan roi rhywfaint o wybodaeth. Disgwylir iddynt ddangos y gallant roi ymatebion syml i symbyliad, gwranddo ar eraill ac ymateb gyda rhai cyfraniadau. Byddant yn gallu adnabod rhai prif bwyntiau a thynnu rhai manylion o'r brif neges sy'n cael ei chyfleu ar lafar.

AA3: Darllen

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddarllen a dangos dealltwriaeth o ddetholiad o ddeunyddiau priodol ac ymateb i rai deunyddiau, gan geisio ategu eu hesboniadau gan gyfeirio at y testun.

Disgwylir iddynt ddewis a chymhwyso rhywfaint o wybodaeth berthnasol o rai ffynonellau er mwyn cyflawni tasgau penodol sy'n cwmpasu'r tair thema gyffredinol.

AA4: Ysgrifennu

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr geisio ysgrifennu amrywiaeth o ddarnau ysgrifennu naratif, penodol, cyfarwyddiadol, disgrifiadol, creadigol a dychmygus, a chynhyrchu rhywfaint o dystiolaeth o gynllunio. Disgwylir iddynt gyfleu rhywfaint o wybodaeth a cheisio mynegi barn syml ar faterion perthnasol gyda rhai syniadau a barn. Byddant yn ceisio defnyddio ystod syml o eirfa a strwythurau gan gynnwys rhai ffurfiau berfol (amser a pherson) ac yn ceisio sillafu ac atalnodi'n weddol gywir. Mae'r prif bwyntiau fel arfer yn cael eu cyfleu ond mae camgymeriadau mewn sillafu a gramadeg.

Gradd G

AA1: Siarad

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddangos y gallu i gyfathrebu'r iaith lafar mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd cyfarwydd drwy gyfathrebu a rhyngweithio ag anogaeth uniongyrchol a rhoi darnau achlysurol o wybodaeth. Disgwylir iddynt geisio mynegi barn syml yn achlysurol, cyfathrebu a rhyngweithio ag anogaeth uniongyrchol a defnyddio patrymau iaith sylfaenol. Byddant yn defnyddio amrediad gyfyngedig o eirfa ac mae eu ynganiad yn ddealladwy ar y cyfan.

AA2: Gwrando

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth gyfyngedig iawn o iaith lafar sylfaenol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd cyfarwydd drwy gyfathrebu a rhyngweithio ag anogaeth uniongyrchol a rhoi darnau achlysurol o wybodaeth. Disgwylir iddynt ddangos eu bod yn gallu rhoi ymatebion syml iawn i symbyliad, gwrando ar eraill, gwneud ymdrech i ymateb gyda chyfraniad dro ar ôl tro a gwrando ar, a deall, ychydig o'r brif neges sy'n cael ei chyfleu ar lafar.

AA3: Darllen

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddarllen a dangos dealltwriaeth o ystyr cyffredinol testunau priodol a darparu ymatebion sylfaenol i ddeunyddiau darllen drwy ddewis gwybodaeth at ddibenion penodol sy'n cwmpasu'r tair thema gyffredinol.

AA4: Ysgrifennu

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr geisio ysgrifennu darnau ysgrifennu naratif, penodol, cyfarwyddiadol, disgrifiadol, creadigol a dychmygus a fydd yn cynnwys rhai syniadau sylfaenol ac yn cyfleu gwybodaeth gyfyngedig. Byddant yn ysgrifennu testunau byr iawn sy'n ymwneud â chyd-destunau cyfarwydd. Maent yn ceisio mynegi barn syml. Mae amrediad eu geirfa a strwythurau yn gyfyngedig. Mae'r prif bwyntiau'n cael eu cyfleu weithiau ond mae camgymeriadau mynych mewn sillafu a gramadeg a allai rwystro cyfathrebu.

TGAU Cymraeg Iaith

Darperir y disgrifiadau graddau canlynol er mwyn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyrhaeddiad y mae ymgeiswyr y dyfarnwyd graddau penodol iddynt yn debygol o fod wedi'u dangos. Rhaid dehongli'r disgrifiadau hyn o ran y cynnwys a nodir gan y fanyleb (ac unrhyw addasiad ar gyfer 2021, lle y bo'n briodol). Bydd y radd y mae'n fwyaf priodol ei dyfarnu yn dibynnu, yn ymarferol, ar faint y mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar y dystiolaeth gael eu cydbwysu â pherfformiad gwell mewn agweddau eraill.

Gradd A

AA1 - Llafaredd

Mae ymgeiswyr yn cyflwyno mewn ffordd effeithiol a hyderus gan gynnwys gwybodaeth a syniadau cymhleth. Gallant ddadansoddi a gwerthuso'r wybodaeth a'r syniadau'n fedrus. Maent yn amrywio strwythurau brawddegau'n hyderus ac yn dewis o amrywiaeth eang o eirfa gan fynegi gwybodaeth a syniadau mewn ffordd ddeniadol a chreadigol i fodloni anghenion y gynulleidfa.

AA2 Darllen

Gall ymgeiswyr ddewis, dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth, syniadau, barn, pwrpas, ystyr ymhlwg a/neu ogwydd o fewn testunau a mathau o destunau. Byddant yn dangos trosolwg diogel o destunau heriol wrth gasglu gwybodaeth, syniadau, dadleuon a barn at wahanol ddibenion. Mae eu hymatebion yn rymus a beirniadol ac yn dangos gwreiddioldeb wrth ddadansoddi a dehongli. Maent yn ymateb yn sicr a craff i syniadau a themâu allweddol ac yn defnyddio casgliadau, didyniadau a dadansoddiadau yn effeithiol. Maent yn gallu crynhoi a syntheseiddio gwybodaeth a syniadau yn gryno o wahanol ffynonellau.

A3 - Ysgrifennu

Mae ysgrifennu ymgeiswyr yn dangos rheolaeth hyderus, sicr o ffurfiau ac arddulliau, sy'n briodol i dasg a phwrpas. Mae eu hysgrifennu'n ennyn diddordeb y darlennydd ac yn ei ddal drwy ddadl resymegol, grym perswadiol neu wreiddioldeb ysbrydoledig. Defnyddir nodweddion ieithyddol a strwythurol yn fedrus i ddilyniannu testunau a sicrhau cydlynid. Byddant yn ysgrifennu dogfennau ar bynciau cymhleth, yn gryno ac yn glir, yn rhesymegol ac yn berswadiol, gan gynnwys darnau ysgrifennu estynedig, gan gyfleu gwybodaeth, syniadau a barn yn effeithiol ac yn berswadiol. Mae amrediad eang o strwythurau brawddegau cywir yn sicrhau eglurder; dewisiadau geirfa yn uchelgeisiol ac yn ddychmygus; gramadeg, atalnodi a sillafu yn gywir.

Gradd C

AA1 - Llafaredd

Mae ymgeiswyr yn cyflwyno'n effeithiol gyda gwybodaeth a syniadau ac yn cynnig rhywfaint o ddadansoddi a gwerthuso. Byddant yn dangos dealltwriaeth o anghenion y gynulleidfa. Byddant yn defnyddio amrywiaeth o strwythurau brawddegol yn gywir ac yn dewis geirfa ac ymadroddion fel bod syniadau, profiadau a gwybodaeth yn cael eu cyfleu'n glir, gan gynnal diddordeb y gwrandawr.

AA2 Darllen

Gall ymgeiswyr ddeall a dangos sut y caiff ystyr a gwybodaeth eu cyfleu mewn testunau cymhleth. Gallant nodi'r prif bwyntiau, syniadau a phwrpas testunau a mathau o destunau gan gynnwys adroddiadau, testunau cyfarwyddiadol, esboniadol a pherswadiol. Maent yn gallu gwneud ymatebion personol a beirniadol, gan gyfeirio at agweddau penodol ar iaith, gramadeg, strwythur a dyfeisiau cyflwyno i gyfiawnhau eu barn. Maent yn gallu crynhoi a syntheseiddio gwybodaeth/syniadau o wahanol ffynonellau.

A3 - Ysgrifennu

Mae ysgrifennu ymgeiswyr yn dangos addasu ffurf ac arddull yn llwyddiannus i wahanol dasgau ac at ddibenion amrywiol. Byddant yn ysgrifennu dogfennau'n glir ac yn gydlynol i gyfleu gwybodaeth, syniadau a barn gan ddefnyddio iaith, fformatau ac arddulliau sy'n addas at eu diben a'u cynulleidfia. Defnyddir paragraffu'n effeithiol i wneud trefn digwyddiadau neu ddatblygu syniadau yn gydlynol ac yn glir i'r darllenydd. Mae strwythurau brawddegau yn amrywiol ac mae gramadeg, atalnodi a sillafu yn gywir i greu gwahanol effeithiau ac i ennyn diddordeb y darllenydd.

Gradd E

AA1 - Llafaredd

Mae ymgeiswyr yn cyfleu gwybodaeth a phrofiadau, yn datblygu syniadau'n glir gan ddangos eu bod yn gallu rhoi rhai manylion arwyddocal. Maent yn dangos ymwybyddiaeth o bwrpas ac o anghenion y gynulleidfia. Defnyddir nodweddion priodol yr iaith. Mae strwythurau brawddegau yn amrywiol ac mae iaith briodol yn gywir ar adegau.

AA2 Darllen

Mae ymgeiswyr yn deall ac yn gallu disgrifio'n eithaf manwl syniadau, themâu neu ddadleuon yn y testunau ysgrifenedig. Maent yn gallu deall rhai o'r prif bwyntiau a syniadau mewn testunau a mathau o destun a gallant nodi'n annibynnol beth yw prif bwrpasau'r ffurfiau gwahanol. Byddant yn dangos ymwybyddiaeth o sut mae testunau'n cyflawni eu heffeithiau drwy ddefnydd awduron o ddyfeisiau cyflwyniadol. Maent yn gallu cyfosod rhywfaint o wybodaeth neu syniadau o wahanol ffynonellau.

A3 - Ysgrifennu

Mae ysgrifennu ymgeiswyr yn dangos addasu ffurf ac arddull ar gyfer gwahanol dasgau, dibenion a chynulleidfaoedd. Byddant yn ceisio cyfleu eu syniadau a'u barn yn effeithiol a dewisir geirfa ac ymadroddion ar gyfer amrywiaeth a diddordeb. Defnyddir paragraffau i gyfleu syniadau'n glir ac mae strwythur brawddegau, gan gynnwys rhai sy'n gymhleth, fel arfer yn gywir. Mae gramadeg, sillafu ac atalnodi yn gywir ar y cyfan.

Gradd G

AA1 - Llafaredd

Mae ymgeiswyr yn mynegi rhywfaint o wybodaeth, profiadau a syniadau yn fyr gydag anogaeth. Mae peth ymwybyddiaeth ganddynt o'r gynulleidfia. Maent yn gwneud ymgais i siarad yn briodol gydag ystod cyfyngedig o eirfa a gafael gyfyngedig ar ramadeg.

AA2 - Darllen

Mae ymgeiswyr yn deall ychydig o brif syniadau, themâu neu ddadleuon mewn rhai testunau ysgrifenedig. Maent yn gallu deall testunau syml a gallant weithiau nodi prif ddibenion gwahanol fformatau yn annibynnol.

A3 - Ysgrifennu

Mae ysgrifennu ymgeiswyr yn dangos peth ymwybyddiaeth o ffurf ac arddull ar gyfer gwahanol dasgau, dibenion a chynulleidfaoedd. Mae'r ysgrifennu'n syml ar y cyfan ac mae ymdrech i ddewis geirfa ac ymadroddion diddorol. Mae strwythur brawddegau yn sylfaenol. Mae gramadeg, sillafu ac atalnodi sylfaenol ar adegau yn gywir.

TGAU Llenyddiaeth Gymraeg

Darperir y disgrifiadau graddau canlynol er mwyn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyrhaeddiad y mae ymgeiswyr y dyfarnwyd graddau penodol iddynt yn debygol o fod wedi'u dangos. Rhaid dehongli'r disgrifiadau hyn o ran y cynnwys a nodir gan y fanyleb (ac unrhyw addasiad ar gyfer 2021, lle y bo'n briodol). Bydd y radd y mae'n fwyaf priodol ei dyfarnu yn dibynnu, yn ymarferol, ar faint y mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r amcanion asesu yn gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar y dystiolaeth gael eu cydbwysu â pherfformiad gwell mewn agweddau eraill.

Gradd A

AA1

Bydd disgwyl i ymgeiswyr ddadansoddi a dangos dealltwriaeth dda iawn o gynnwys testunau llenyddol/llunyddol gan ddangos gwybodaeth fanwl i gadarnhau safbwynt.

AA2

Bydd disgwyl i ymgeiswyr drafod arddull/mesur/ffurf testunau ac ystyried eu haddasrwydd a'u heffeithiolrwydd yn dda iawn gan gynnwys rhesymau perthnasol a dilys.

AA3

Bydd disgwyl i ymgeiswyr gyflwyno ymateb personol deallus i'r testunau a astudiwyd gan roi rhesymau argyhoeddiadol a dilys i ategu eu safbwyntiau.

Gradd C

AA1

Bydd disgwyl i ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth eithaf da o gynnwys testunau llenyddol/llunyddol gan gyfeirio'n lled fanwl at y testun dan sylw a llwyddo ar adegau i ddeall y testun ar lefel ddyfnach na'r llythrennol yn unig.

AA2

Bydd disgwyl i ymgeiswyr adnabod ac ymdrin ag arddull/mesur/ffurf testunau ac ystyried eu haddasrwydd a'u heffeithiolrwydd yn eithaf da gan roi rhai rhesymau.

AA3

Bydd disgwyl i ymgeiswyr gyflwyno ymateb personol eithaf da i'r testunau a astudiwyd a rhoi rhai rhesymau i ategu eu safbwyntiau.

Gradd E

AA1

Bydd disgwyl i ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth o brif syniadau a sôn am rai manylion yng nghynnwys testunau llenyddol/llunyddol.

AA2

Bydd disgwyl i ymgeiswyr adnabod ac ymgeisio i drafod addasrwydd arddull/mesur/ffurf testunau.

AA3

Bydd disgwyl i ymgeiswyr ddangos ychydig o ymateb personol perthnasol.

Gradd G

AA1

Bydd disgwyl i ymgeiswyr adrodd cynnwys testunau llenyddol/llunyddol yn fras gan ddangos dealltwriaeth arwynebol iawn.

AA2

Bydd disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at ambell nodwedd arddull/ffurf/mesur amlwg.

AA3

Bydd disgwyl i ymgeiswyr gyflwyno ymateb personol syml iawn i'r testunau.